# HOUSING FIRST WALES ACCREDITATION

# ACHREDIAD TAI YN GYNTAF CYMRU

## ADRODDIAD ACHREDIAD

### PROSIECT TAI YN GYNTAF CONWY A SIR DDINBYCH

AWST 2020

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

HOUSING FIRST NETWORK WALES

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Methodoleg | 6 |
| 3. Tystiolaeth | 8 |
| 4. Adrodd ar egwyddorion ac ymlyniad | 10 |
| 5. Argymhelliad achredu a phenderfyniad | 29 |
| 6. Sylwadau'r panel ac ychwanegiadau | 30 |
| 7. Dyfarniad | 34 |
| 8. Geirfa a thermau | 35 |

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Tai yn Gyntaf yn ddull sy'n canolbwyntio ar adferiad i roi terfyn ar ddigartrefedd; mae'n canolbwyntio ar weithredu'n gyflym i symud pobl ddigartref i mewn i dai annibynnol a pharhaol, ac wedyn yn darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r cysyniad wedi cael ei weithredu'n fwyaf penodol gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd – neu o leiaf sydd â threfniadau llety hynod ymylol – a chanddynt anghenion cymorth cronig a chymhleth. Datblygwyd y dull yn Efrog Newydd yn yr 1990au, yn bennaf gan y seicolegydd cymunedol Sam Tsemberis. Darganfu Tsemberis fod darparu tai ar gyfer cleientiaid bregus oedd yn byw ar y stryd, a hynny heb y mathau o ragamodau a weithredir fel arfer mewn dulliau o ostwng digartrefedd, yn cael effaith hynod fuddiol ar fywydau'r cleientiaid.

Dros y blynyddoedd, mae tystiolaeth gadarn ryngwladol wedi profi pa mor effeithiol y gall Tai yn Gyntaf fod. Trwy weithredu Tai yn Gyntaf yng Nghymru, mae gennym gyfle go iawn i helpu pobl sydd wedi treulio blynyddoedd yn cysgu ar y stryd i gael mynediad at lety tymor hir, a'i gynnal.

Er mwyn gael yr effaith fwyaf bosibl, mae'n hanfodol fod y prosiectau sy'n mynd dan yr enw Tai yn Gyntaf – neu sy'n honni eu bod yn cyflenwi'r dull hwn – yn gwneud hynny'n unol ag egwyddorion Tai yn Gyntaf yng Nghymru. Mae yna, wrth gwrs, lawer o bobl a phrosiectau sy'n gwneud gwaith gwych ledled y wlad, ac nid Tai yn Gyntaf mohonynt. Ond rhaid i'r rhai hynny sy'n honni eu bod yn gweithredu Tai yn Gyntaf lynu at yr egwyddorion.

Datblygwyd yr egwyddorion hyn gan Rwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru, yn seiliedig ar ddiffiniadau rhyngwladol ac adeiladu ar y gwaith oedd eisoes wedi ei gyflawni gan Homeless Link yn Lloegr. Roedd y Rhwydwaith yn awyddus i sicrhau bod yr egwyddorion Tai yn Gyntaf a ddefnyddid yng Nghymru yn addas ar gyfer y cyd-destun Cymreig.

Dangosir yr egwyddorion mewn tabl ar dudalen tri. Maent hefyd ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg, gyda rhagor o fanylion ynghylch beth maen nhw'n ei olygu yn ymarferol, a system sgorio syml fel bod darparwyr cymorth yn gallu asesu eu hymlyniad i'r egwyddorion hyn. Mae tystiolaeth yn dangos yn glir, pan fo egwyddorion Tai yn Gyntaf yn cael eu dilyn, mae'r dull ar ei fwyaf effeithlon.

Yn ogystal, mae siart llif o'r broses achrediad ar y dudalen nesaf yn gosod allan y prif gamau a gymerwyd wrth arwain at greu'r adroddiad hwn. Mae adran nesaf yr adroddiad yn ymdrin â methodoleg benodol yng nghyd-destun casglu data.

## DATBLYGU'R ACHREDIAD

Wrth i'r gwaith o ddatblygu a darparu prosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru gynyddu, daeth yn amlwg y byddai angen mecanwaith i sicrhau cadw'n ffyddlon i'r egwyddorion. O ganlyniad, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i sefydlu swydd Cydlynydd Polisi ac Ymarfer Tai yn Gyntaf (swydd y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'Y Cydlynydd'), i weithio o fewn Cymorth Cymru. Gyda chymorth cydweithwyr, a Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru, aeth y Cydlynydd ati i ddatblygu Fframwaith Asesu, gyda'r bwriad o werthuso prosiect Tai yn Gyntaf o ran pa mor ffyddlon y mae i'r egwyddorion a restrir uchod.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau a chanlyniad y Fframwaith Asesu yma wrth iddo gael ei gymhwyso i brosiectau Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych yng ngogledd Cymru. Darperir y prosiect hwn mewn partneriaeth gan Gyngor Sir Conwy a Chyngor Sir Dinbych.

Dylid nodi nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio gwerthuso effeithiolrwydd Tai yn Gyntaf fel model, fel y gwnaed sawl gwaith dros flynyddoedd lawer – ac nid yw chwaith yn ceisio gwerthuso 'ansawdd' y cymorth a ddarperir oddi mewn i brosiect Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych. Rhywbeth i'r corff comisiynu ei fonitro a'i sicrhau yw hynny. Y safbwynt a gymerir gan Rwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru, a'r Cydlynydd, yw os bydd prosiect yn darparu Tai yn Gyntaf yn ôl yr egwyddorion a restrir uchod, yna mae'n debygol o ddarparu cymorth mewn dull effeithiol, gan drawsnewid bywydau yn y broses.

## Y BROSES

| | |
|---|---|
| **CYCHWYNNOL** | Sgyrsiau cychwynnol gyda darparwr. |
| **CAM UN** | Arwyddo cytundeb ymrwymiadau; anfon y dogfennau at y Cydlynydd. Cytuno ar gynllun y cyfweliad a'i weithredu yn unol â'r Fframwaith Asesu. |
| **CAM DAU** | Rhannu'r Adroddiad Argymhellion Interim gyda'r darparwr. Cam argymhellion. |
| **CAM TRI** | Rhannu'r Adroddiad Terfynol gyda'r Panel Achredu. Gwneud y penderfyniad achredu terfynol. |

# EGWYDDORION TAI YN GYNTAF

1. Mae gan bobl hawl i gael cartref sy'n fforddiadwy, yn ddiogel, yn addas i fyw ynddo, yn ddigonol yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, a lle mae gwasanaethau ar gael (yn unol â Chyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol). Dylai hefyd fod yn rhan o gymuned nid o sefydliad.
2. Mae'r elfen tai a'r elfen cymorth yn cael eu gwahanu.
3. Mae'r gwasanaeth wedi ei dargedu at unigolion sy'n dangos patrwm cyson o ddatgysylltu â llety mewn hostel, a/neu unigolion sy'n mynd i gysgu ar y stryd neu mewn Llety Brys Dros Nos (EOS) ar y pwynt lle caiff yr atgyfeiriad ei wneud.
4. Caiff cymorth hyblyg ei ddarparu cyhyd ag y bo angen amdano.
5. Defnyddir dull o ymgysylltiad gweithredol.
6. Mae gan unigolion ddewis a rheolaeth.
7. Defnyddir dull o leihau niwed yng nghyd-destun camddefnyddio sylweddau.
8. Caiff y gwasanaeth ei gyflenwi mewn dull seicolegol-wybodus, trawma-wybodus, rhywedd-wybodus sy'n sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig.
9. Caiff y gwasanaeth ei seilio ar gryfderau pobl, eu nodau a'u dyheadau, ac oherwydd hynny mae'n ymrwymo'n benodol i lwyth gwaith bychan.
10. Caiff yr ystod ehangaf posibl o wasanaethau eu cynnwys o'r dechrau (iechyd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, yr heddlu), fel bod unigolion yn gallu cael mynediad atynt os ydynt yn dymuno neu ag angen amdanynt.

# 2. METHODOLEG

Gwnaed yr ymchwil hon yn unol â Fframwaith Asesu Achrediad Tai yn Gyntaf Cymru, a ddyfeisiwyd gan y Cydlynydd Polisi ac Ymarfer Tai yn Gyntaf mewn partneriaeth â Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Y PWYNT CYSWLLT A FFYNONELLAU TYSTIOLAETH

- Cytunwyd ar y prif bwynt cyswllt (sef Sue Stevenson, Rheolwr Tîm Tai yn Gyntaf), a chadwyd mewn cysylltiad â'r Cydlynydd drwy gydol y broses.
- Daeth y dystiolaeth ynghylch ymlyniad i bob egwyddor o ddwy ffynhonnell:
    - *Dogfennau a ddarparwyd gan Dîm Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych*
    - *Cyfweliadau a gynhaliwyd gan y Cydlynydd*

## Y CYFWELIADAU

- Cynhaliodd y Cydlynydd gyfweliadau gydag wyth o weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio'n uniongyrchol i'r prosiect, neu a chanddynt ran fwy anuniongyrchol ynddo – aelodau o'r awdurdod lleol ehangach sy'n mynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Llywio, er enghraifft, ynghyd â rheolwr llinell Rheolwr Tîm Tai yn Gyntaf.
- Cyfwelwyd un cleient sy'n byw ar hyn o bryd mewn tenantiaeth Tai yn Gyntaf.
- Cynhaliwyd sgwrs llai ffurfiol gyda chleient arall, oedd yn help i ychwanegu at gynnwys yr adroddiad, ond na chasglwyd drwy recordiad.
- Yn achos pob cyfweliad heblaw yr un anffurfiol, cafodd ffurflenni caniatâd eu llofnodi, a chyfweliadau eu recordio.
- Cynhaliwyd pedwar cyfweliad wyneb yn wyneb – y rhai gyda chleient a'r rhan fwyaf o'r tîm Tai yn Gyntaf eu hunain.
- Cynhaliwyd y pum cyfweliad arall dros y ffôn – roedd un aelod o'r tîm newydd ddechrau gweithio gyda hwy, ond roedd y gyfarwydd â'r prosiect yn sgil gwaith ymgynghori blaenorol.

## Y DOGFENNAU

- Gwnaed cais am ddogfennau yn unol â'r Fframwaith Asesu, neu rai a nodwyd gan Reolwr y Tîm Tai yn Gyntaf fel rhai defnyddiol.
- Ym mhob achos, cafodd unrhyw elfennau lle gellid adnabod defnyddwyr gwasanaeth penodol eu dileu oddi ar y dogfennau.
- Mae'r dogfennau wedi cael eu cadw mewn lle diogel a byddant yn cael eu dinistrio bedwar mis ar ôl cwblhau'r broses achredu.

## Y MATH O DYSTIOLAETH, ANSAWDD A SGORIO

- Cafodd tystiolaeth o bob math ei chatalogio yn yr Adroddiad Argymhellion Interim, a'r unig rai sydd wedi gweld yr adroddiad hwnnw yw'r Cydlynydd, staff y prosiect, a staff allweddol Cymorth Cymru i bwrpas rheoli ansawdd.
- Roedd y ffynonellau o dystiolaeth yn rhannu'n bum math:
  - Dogfennau polisi mewnol
  - Dogfennau polisi allanol
  - Cyfweliadau gydag ymarferwyr
  - Cyfweliadau allanol
  - Cyfweliadau gyda chleientiaid
- Y dull o sgorio oedd isel iawn, isel, digonol, uchel neu uchel iawn.
- Nodwyd meysydd o bryder, ac amlinellwyd unrhyw broblemau gydag unrhyw egwyddor penodol, yn yr Adroddiad Argymhellion Interim.

## ARGYMHELLION A CHYNLLUN YMARFER GORAU

- Cafodd gwahanol argymhellion eu dyfeisio.
- Yn yr achos hwn, o ystyried arwyddion cynnar ymlyniad i'r model, mae'r argymhellion wedi cymryd ffurf datblygu 'ymarfer gorau', yn hytrach na'r camau gofynnol i dderbyn achrediad.
- Cafodd yr argymhellion a'r Cynllun Gweithredu Arfer Gorau eu cyfleu i Reolwr y Tîm Tai yn Gyntaf.
- Yn achos rhai pwyntiau, darparodd Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf dystiolaeth o'r hyn oedd eisoes yn cael ei wneud i fodloni'r argymhellion.
- Mewn enghreifftiau eraill, roeddent wedi mynegi ymrwymiad i weithredoedd penodol yn seiliedig ar yr argymhellion.
- Mewn ymateb, aeth y Cydlynydd ati i dynnu gwahanol amserlenni at ei gilydd i nodi'n glir pryd y disgwylir diweddariadau neu dystiolaeth o weithredu.
- Cafodd y dystiolaeth hon a/neu ymrwymiad i weithredu eu hychwanegu at yr Adroddiad Argymhellion.

## CYNHYRCHU'R ADRODDIAD TERFYNOL

- Roedd yr adroddiad hwn yn ffurfio'r prif ddarn o dystiolaeth a ddefnyddir gan aelodau o'r Panel Achredu Tai yn Gyntaf fel sail i'w penderfyniad p'un ai i ddyfarnu achrediad, ai peidio, i brosiect Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych.
- Darparwyd yr adroddiad hwn i'r tîm yng Nghonwy a Sir Ddinbych, ynghyd â'r cysylltiadau priodol yn Llywodraeth Cymru, gydag adran ychwanegol i'w drafftio ar ôl i'r panel ddod i benderfyniad.
- Ar ôl hynny, roedd tîm Conwy a Sir Ddinbych yn penderfynu a fyddent yn cyhoeddi a rhannu'r adroddiad ai peidio

# 3. TYSTIOLAETH

## YR EGWYDDORION A'R DYSTIOLAETH

Cyn trafod y darnau penodol o dystiolaeth, a'u perthynas ag egwyddorion neilltuol, mae'n werth nodi bod prosiect Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych wedi cael ei lunio gydag ymrwymiad cryf i'r set gyfan o egwyddorion yn ganolog i'w genhadaeth. Mae hyn efallai i'w weld yn fwyaf amlwg mewn adroddiad a gynhyrchwyd gan y cwmni Imogen Blood & Associates. Comisiynwyd y sefydliad i lunio cynllun prosiect cynnar, ac mae'r cynllun hwn yn amlwg yn ymrwymo'r prosiect i lynu at y set gyfan o egwyddorion Tai yn Gyntaf Cymru.

Yn yr un modd, mae'r ddogfennaeth a anfonwyd at Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cais i dderbyn cyllid Trailblazer, yn ei gwneud yn glir y bydd y prosiectau yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn gweithio'n unol â phob egwyddor.

Er na chafodd y ddwy ddogfen yma eu hystyried fel tystiolaeth uniongyrchol o ymlynu at ryw egwyddor benodol, maent er hynny yn dangos seilwaith cryf i'r gwaith sy'n cael ei wneud ledled y ddwy ardal awdurdod lleol.

## LEFEL SGORIO TYSTIOLAETH YMLYNIAD

Yn y testun isod, sgoriwyd lefel y dystiolaeth yn ôl y dewisiadau canlynol:

Isel iawn | Isel | Digonol | Uchel | Uchel iawn

Roedd y categorïau o dystiolaeth yn seiliedig ar ffynonellau fel a ganlyn:

| Byrfodd | Math o dystiolaeth |
|---|---|
| DPM (IPD) | Dogfen Polisi Mewnol - dogfen sy'n rheoli'r modd y mae Tai yn Gyntaf yn cael ei weithredu, wedi'i chreu o fewn y tîm Tai yn Gyntaf ei hun. |
| DPA (EPD) | Dogfen Polisi Allanol - dogfen sy'n rheoli neu'n effeithio ar y modd y mae Tai yn Gyntaf yn cael ei weithredu, wedi'i chreu gan sefydliad neu unigolyn y tu allan i'r tîm Tai yn Gyntaf (yr awdurdod lleol, er enghraifft). |
| CY (PI) | Cyfweliad Ymarferydd - cyfweliad a gynhaliwyd gydag aelod o'r tîm Tai yn Gyntaf, person a chanddi/o brofiad o gyflenwi'r gwasanaeth o ddydd-i-ddydd. |
| CA (EI) | Cyfweliad Allanol - cyfweliad a gynhaliwyd gyda rhywun y tu allan i'r tîm Tai yn Gyntaf ei hun, ond sy'n rhanddeiliad o ran cyflenwi Tai yn Gyntaf (roedd rhai a gyfwelwyd, er enghraifft, yn gweithio i ran wahanol o'r awdurdod lleol, ond yn eistedd ar y Grŵp Llywio Tai yn Gyntaf). |
| CC (CI) | Cyfweliad cleient - cyfweliad a gynhaliwyd gyda chleient, defnyddiwr gwasanaeth, neu ddinesydd, sy'n derbyn cymorth gan y tîm Tai yn Gyntaf a naill ai wedi cael llety neu'n aros i gael llety mewn eiddo Tai yn Gyntaf. |

## LEFEL TYSTIOLAETH ARGYMHELLION

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r argymhellion hefyd wedi cael eu sgorio, ond gan ddefnyddio graddfa symlach nag yn achos y dystiolaeth sy'n berthnasol i egwyddor cyfan. (Mae'n werth nodi eto bod yr argymhellion a gyflwynwyd i brosiectau Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych yn argymhellion 'ymarfer gorau', yn hytrach nag argymhellion sy'n effeithio ar yr achrediad).

| Dim | Isel | Digonol | Uchel |
|---|---|---|---|

Yn ychwanegol, mae'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer gweithredu ar argymhellion wedi cael ei graddio fel a ganlyn:

| Amserlen | Cyfnod |
|---|---|
| Tymor byr | Hyd at chwe mis |
| Tymor canolig | Chwech i ddeuddeg mis |
| Tymor hir | Mwy na blwyddyn |

## LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR UN Uchel

**Mae gan bobl hawl i gael cartref sy'n fforddiadwy, yn ddiogel, yn addas i fyw ynddo, yn ddigonol yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, a lle mae gwasanaethau ar gael (yn unol â Chyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol). Dylai hefyd fod yn rhan o gymuned ac nid yn rhan o sefydliad.**

### Crynodeb o'r nodiadau

Yn unol â'r Adroddiad Argymhellon, roedd y sgôr lefel tystiolaeth ar gyfer egwyddor 1 yn 'uchel'. Darparwyd tystiolaeth o bob un o'r pum math y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad: dogfennau polisi mewnol ac allanol, cyfweliadau mewnol ac allanol, a chyfweliadau gyda chleientiaid. Fodd bynnag, roedd materion yn y 'meysydd o gonsỳrn' yn gostwng y lefel tystiolaeth o'r sgôr uchaf, sef 'uchel iawn'.

Mae yna agweddau o'r dogfennau allanol sy'n cefnogi'r egwyddor gyntaf hon. Mae'r polisi Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol, er enghraifft, yn ei gwneud yn glir mai dewis olaf, pan fydd popeth arall wedi methu, yw troi allan; mae dogfen Casglu Incwm Tai Cymdeithasol Sir Ddinbych yn cyfeirio at gartrefi 'diogel'. Mae'r Cyfarfod Rhithiol Dyrannu Eiddo yn nodi'n glir na ddylai tenantiaid TyG gael eu trin yn wahanol i unrhyw denantiaid eraill.

Roedd pawb a gyfwelwyd yn dweud yn glir nad oedd raid i gleientiaid ymrwymo i unrhyw beth heblaw 'cadw mewn cysylltiad' â'r tîm TyG er mwyn sicrhau eu tenantiaeth; gall 'cadw mewn cysylltiad' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar yr unigolyn. Awgrymodd un cyfwelai na fyddai'r tîm yn gallu rhoi dewis i'r cleientiaid heb wybod beth mae'r cleient ei eisiau, felly mae'n angenrheidiol eu bod yn rhyngweithio ar lefel sylfaenol. I'w gwneud yn haws i gadw mewn cysylltiad, bydd tenantiaid yn cael ffonau symudol a chredyd wedi'i gynnwys, gyda chais i anfon neges destun os bydd arnynt angen unrhyw beth. Yn y modd hwn, gall cleientiaid gymryd yr arweiniad pan fyddant yn teimlo bod arnynt angen cymorth. Yn wir, nododd un cyfwelai fod tenantiaid weithiau'n synnu cyn lleied mae'n rhaid iddyn nhw ymrwymo iddo pan fyddant yn symud i mewn i'w cartref. Roedd y cleient a gyfwelwyd yn gwbl bendant ynghylch peidio â gorfod cytuno i unrhyw beth nac ymrwymo i unrhyw wasanaethau penodol y tu hwnt i'r cytundeb tenantiaeth.

Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd, oedd yn gweithio y tu allan i'r tîm Tai yn Gyntaf, yn cymharu Tai yn Gyntaf â'u gwaith statudol ar ostwng digartrefedd. Roeddynt yn cymharu'r ymrwymiadau mae'n rhaid i gleientiaid eu gwneud pan yn ymgysylltu â Dewisiadau Tai, er enghraifft, â'r diffyg ymrwymiad o'r fath sy'n berthnasol i Tai yn Gyntaf. Bu staff o fewn y tîm hefyd yn trafod enghreifftiau diweddar iawn o gleientiaid yn gwrthod cwrdd â'u gweithiwr cymorth, ond yn anfon neges destun i ddweud bod popeth yn iawn.

Mae rhent pob eiddo yn ddigon isel i ddod o fewn y gyfradd Lwfans Tai Lleol, ac yn ddamcaniaethol dylai fod yn fforddiadwy i'r cleientiaid. Mae'n werth nodi bod y tîm yn dechrau ar y broses o adeiladu cyswllt â'r PRS, a allai gymhlethu'r agwedd fforddiadwyedd.

Bydd y tîm yn gweithio gyda thenantiaid i ddechrau hawlio Credyd Cynhwysol os oes angen. Mae'r eiddo wedi eu gwasgaru dros ardal eang ar draws y ddwy sir; mae peth o'r eiddo mewn ardaloedd sydd, fe ddywedir, yn boblogaidd. Pan holwyd hwy, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio'r pellter rhwng gwahanol eiddo. Mae'r tîm yn gweithio gydag RSLau i sicrhau bod y llety'n saff a diogel, ac o 'safon uchel iawn', fel y dywedodd un person.

Dywedwyd wrthyf bod y tîm Tai yn Gyntaf, mewn un achos, wedi barnu nad oedd yr eiddo'n cwrdd â'r safon, felly buont yn gweithio gyda'r RSL i rannu cost yr atgyweiriadau.

Mae'r tîm yn trefnu bod popeth sydd ei angen ar gael yn y tai, ac yn sicrhau eu bod yn gwybod ble mae'r goriadau sbâr, er enghraifft, rhag bod neb yn cael eu cloi allan mewn sefyllfa anniogel. Roedd y cleient y bûm i'n siarad ag ef wedi penderfynu symud allan o'i dŷ oherwydd problemau gyda chymydog. Roedd y tîm yn helpu'r cleient i wneud hyn, a phwysleisiwyd i mi mai'r cleient oedd yn dewis symud.

## Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Ni chyfeirir yn benodol at Tai yn Gyntaf ym Mholisi Cyffredinol Dyrannu Tai Sir Ddinbych, er y sonnir am y gofyniad statudol sydd ar landlordiaid cymdeithasol i helpu i ostwng digartrefedd. Mae hyn, mewn rhai ffyrdd, y tu allan i reolaeth y tîm TyG, ac yn rhan o drafodaeth ehangach mae'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf yn ceisio'i ddechrau gydag awdurdodau lleol.

Soniodd sawl cyfwelai am y diffyg cyffredinol o lety yn yr ardal – mae hyn eto'n fater sy'n effeithio ar y wlad gyfan. Mae'r ffaith fod y pwynt yn codi, fodd bynnag, yn amlygu'r angen am bolisïau dyrannu effeithiol sy'n cydnabod gwerth Tai yn Gyntaf. Mae Cadeirydd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf wedi ebostio awdurdodau lleol yng Nghymru yn holi am eu polisïau dyrannu, a gwneir gwaith ar wahân i archwilio'r maes hwn.

## Argymhellion

***Amserlen: Tymor canolig i hir***

1. Sicrhau, pan ddefnyddir llety gwely a brecwast, fod gan weithwyr cymorth y grym i herio ansawdd y llety, gan sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn ei monitro i ofalu nad yw'r arhosiad yn parhau am amser hir.
2. Dylid parhau i ddatblygu'r prynu-i-mewn gan y PRS. Gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) i sicrhau bod yna ddigon o eiddo yn agored i Tai yn Gyntaf.
3. Cyflwyno cais am i brosiectau Tai yn Gyntaf gael eu hariannu drwy'r Grant Cymorth Refeniw (RSG) neu trwy ddulliau eraill i hwyluso cefnogaeth yn gyfredol ac yn y tymor hir.

## Yr ymateb i'r argymhellion

Mae Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf wedi ymrwymo i weithio ar y argymhellion hyn. Eisoes, mae'r tîm wedi dechrau cysylltu â landlordiaid PRS lleol i drefnu i weld tai, a dechrau adeiladu cysylltiad gyda hwy, a bydd yn datblygu llwybr effeithiol er mwyn gweithio mewn modd effeithiol gyda'r PRS.

Yn ddamcaniaethol, dylai hyn arwain at gael rhagor o eiddo ar gyfer Tai yn Gyntaf. Rwyf wedi derbyn tystiolaeth ebost o apwyntiadau i weld eiddo yn cael eu trefnu gyda landlordiaid PRS lleol, a thystiolaeth hefyd o brynu rhywfaint o eiddo.

O ran yr ail argymhelliad, mae'r tîm eisoes yn gweithio ar strategaeth ymadael ar gyfer yr adeg pan fydd yr arian cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn dod i ben. Gallai hyn gynnwys llwybrau megis y Grant Cymorth Refeniw.

Bydd Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf yn rhoi diweddariad i'r Cydlynydd ar y camau hyn, yn arwain at yr haf.

**Sgôr tystiolaeth argymhellion: uchel.**

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR DAU Uchel

## Mae'r elfen tai a'r elfen cymorth yn cael eu gwahanu

### Crynodeb o'r nodiadau

Barnwyd fod y sgôr lefel tystiolaeth ar gyfer yr egwyddor hon yn 'uchel'. Cynrychiolwyd hyn ym mhob un o'r mathau o dystiolaeth heblaw'r cyfweliad gyda chleient.

Mae nifer o Gymdeithasau Tai yng Nghonwy a Sir Ddinbych wedi ymuno â'r Siarter Rheoli Tai yn Gyntaf (a ddatblygwyd gan is-grŵp Rheoli Tai y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf yng Nghymru); mae hwn yn amlinellu'n glir beth yw rôl y landlord cymdeithasol mewn prosiect Tai yn Gyntaf, a sut mae'n cael ei wahanu oddi wrth ddarparu cymorth. Mae'r Canllaw Dyrannu Eiddo Tai yn Gyntaf hefyd yn esbonio'n glir y bydd system rheoli tai, a threfniadau tenantiaeth penodol, yn eu lle ac ar wahân i'r cymorth a ddarperir gan dîm TyG.

Dysgais o'r cyfweliadau fod y tîm Tai yn Gyntaf yn datblygu perthynas dda gyda Swyddogion Tai, ond yn nhermau gwaith go iawn mae'r elfen rheoli tai a'r elfen cymorth yn gyfan gwbl ar wahân; codwyd y cysyniad hwn, a'r cymal 'yn gyfan gwbl ar wahân', yn ddi-ofyn-amdano mewn o leiaf un cyfweliad. Lle bo angen, mae tîm TyG yn mynychu cyfarfodydd cymdeithasau tai i gynrychioli'r cleient, ac i sicrhau eu bod yn cadw'n gyfredol o unrhyw ddatblygiadau pwysig. Nododd aelod o'r tîm TyG nad ydynt yn chwarae unrhyw ran yn y gwaith o osod y denantiaeth ei hun yn ei lle, er y gallent fynd â chleientiaid i arwyddo'r cytundebau tenantiaeth, a hefyd (fel y soniwyd eisoes) yn helpu cleientiaid i gyflwyno cais am nawdd cymdeithasol. Tynnodd y person hwn sylw at y rôl cyfryngu/eiriolaeth y maent yn ei chymryd ar ran cleientiaid.

### Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Nododd un cyfwelai mai 'gwaith ar waith' oedd adeiladu perthynas gyda swyddogion tai, felly rwy'n cael yr argraff bod angen gwneud mwy yn y maes hwn. Mewn rhai achosion, ymddengys fod gan staff mewn Cymdeithasau Tai (a sefydliadau eraill) ddulliau arbennig o weithio, a bod rhai safbwyntiau wedi datblygu dros gyfnod hir o amser ac wedi gwreiddio'n ddwfn. Mae newid diwylliant o'r fath yn anodd, ac mae'r tîm Tai yn Gyntaf yn ceisio cyflawni hyn trwy roi cyflwyniadau am Tai yn Gyntaf, a'r rheiny wedi'u teilwrio ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.

Rw'n derbyn y ffaith y dylai cleientiaid Tai yn Gyntaf fod yn arwyddo cytundebau tenantiaeth sydd yr un fath â rhai unrhyw denantiaid eraill. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, nad yw'r cytundebau tenantiaeth a arwyddir gan gleientiaid Tai yn Gyntaf yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at wahanu tai a chymorth. Gellid dadlau, fodd bynnag, fod hyn yn cael ei liniaru gan y ffaith fod Cymdeithas Dai yn arwyddo'r siarter, gan fod hynny'n gweithredu fel dogfennaeth bellach sy'n amlinellu'r berthynas rhwng landlord a thenant.

### Argymhellion

*Amserlen: Tymor byr i ganolig*

4. Parhau gyda'r cyflwyniadau, gan chwilio am feysydd sy'n achosi problemau penodol, a mynd i'r afael â hwy.
5. Wrth i TyG gael ei gyflwyno'n fwy eang, sicrhau bod monitro'r gwasanaeth yn gofyn yn benodol am wahanu tai a chymorth, a bod y comisiynydd yn gweithredu ar enghreifftiau lle mae'r ffin yn annelwig.

## Yr ymateb i’r argymhellion

Mae’r tîm wedi ymrwymo i barhau â chynllun sydd eisoes wedi dangos peth llwyddiant: darparu cyflwyniadau sy’n codi ymwybyddiaeth am Tai yn Gyntaf ar gyfer cynulleidfaoedd penodol a allai fod â rhan i’w chwarae yn y cynllun – yr heddlu, er enghraifft, neu landlordiaid PRS. Dylai parhau i wneud hyn er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a ddylai helpu i newid agweddau – a bellach mae gan y tîm adnoddau pwrpasol i wneud hynny. Bydd y Cydlynydd yn dilyn i fyny ar gyflwyniadau yn y dyfodol, ac ymateb y gynulleidfa.

Mae’r tîm wedi ymrwymo i ddatblygu Fforwm Landlordiaid Tai yn Gyntaf, a fydd yn cynnwys swyddogion tai rheng flaen o RSLau (ac, yn y dyfodol, y PRS) yn cwrdd â staff Tai yn Gyntaf i adeiladu perthynas, derbyn y newyddion lleol diweddaraf, ac edrych ar astudiaethau achos i ddatblygu synnwyr o ymarfer da, yn ogystal â mynd i’r afael â heriau. Rwyf wedi derbyn enghreifftiau o’r cyflwyniadau sydd wedi cael eu datblygu, a chynhelir cyfarfod cyntaf y Fforwm Landlordiaid Tai yn Gyntaf ar 16 Ebrill 2020. Yn ogystal, mae rhai landlordiaid cymdeithasol yn yr ardal wedi arwyddo Siarter Rheoli Tai yn Gyntaf.

Rydw i wedi derbyn drafft o’r Canllaw Gweithredol, sy’n diffinio’n glir y gwahaniaeth rhwng yr hyn mae’r tîm Tai yn Gyntaf yn ei wneud, a beth yw rôl yr RSLau a’r landlordiaid eraill. Bydd y canllaw hwn yn cael ei godi yn y Fforwm Landlordiaid nesaf, fel y crybwyllwyd uchod, er mwyn ei ddatblygu a derbyn mewnbwn gan y prif randdeiliaid sy’n cynrychioli darparwyr tai lleol.

**Sgôr tystiolaeth argymhellion: Uchel**

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR TRI Uchel

**Mae'r gwasanaeth wedi ei dargedu at unigolion sy'n dangos patrwm cyson o ddatgysylltu â llety mewn hostel, a/neu unigolion sy'n mynd i gysgu ar y stryd neu'n cael mynediad at Lety Brys Dros Nos (EOS) ar y pwynt lle caiff yr atgyfeiriad ei wneud.**

## Crynodeb o'r nodiadau

Roedd yna nifer fawr o enghreifftiau o'r prosiect yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn gweithio gyda'r grŵp nodweddiadol o gleientiaid sy'n gweddu orau i'r cynllun Tai yn Gyntaf. Cafodd y lefel tystiolaeth ei sgorio'n 'uchel', ac roedd enghreifftiau o dystiolaeth o bob categori.

Yn y cyfarfod Strategaeth Aml-Asiantaeth, bu'r grŵp yn trafod unigolyn oedd wedi aros yn ei unfan ers peth amser. Yn ogystal, codwyd mater bregusder ac anghenion iechyd meddwl y person. Mae'r daenlen rhestr aros yn cynnwys manylion y cleientiaid, ac mae'n glir eu bod yn addas ar gyfer Tai yn Gyntaf ac yn cwympo i'r grŵp cleientiaid targed. Mae'n galonogol gweld bod yr angen am beth brys yn cael ei amlygu yn rhai o'r ceisiadau am lety, yn seiliedig ar y sefyllfa fregus mae rhai o'r bobl yn eu cael eu hunain ynddi.

Mae cofnodion y Cyfarfod Grŵp Derbyn yn dangos trafodaeth agored, onest ynghylch addasrwydd cleientiaid penodol ar gyfer TyG, a'r ffaith y dylai ymgeiswyr addas fod ag angen tai a chymorth. Mewn gwirionedd, mae'r drafodaeth gyfan yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y drydedd egwyddor hon. Yn ogystal, mae Matrics Meini Prawf TyG yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu TyG ar gyfer y grŵp cleientiaid targed. Ym mhob categori, y 'gwaethaf' neu'r 'mwyaf anhrefnus' mae person yn sgorio, y mwyaf tebygol y maent i gael eu hystyried yn addas. O ganlyniad, yr ymgeiswyr y gellid eu hystyried fel y mwyaf o 'risg' i wasanaethau eraill yw'r bobl sy'n fwyaf tebygol o gael eu derbyn i lety Tai yn Gyntaf – ac felly y dylai fod. Mae nodiadau'r Cyfarfod Rhithiol Dyrannu Eiddo yn cyfeirio at y Siarter Rheoli a'r ffaith fod yna broses i alluogi RSLau i'w harwyddo.

Roedd pawb a gyfwelwyd yn cytuno bod y tenantiaid yn y prosiectau ac ar y rhestr aros yn y grŵp cleientiaid targed cywir. Trafododd nifer o bobl y ffaith fod y cleientiaid hyn wedi cael eu gadael i lawr sawl tro gan y system, ac mewn rhai achosion wedi bod ar y strydoedd am ddegawd a mwy. Mae'r methiannau hyn yn cyfrannu at y ffaith ei bod yn cymryd amser i adeiladu perthynas gyda chleientiaid, a bod angen ymgysylltiad gweithredol dros gyfnod o amser. Fel hyn y mynegodd un person y sefyllfa: mae'r tîm TyG yn cymryd yr agwedd 'dydyn ni ddim yn mynd i unrhyw le,' tra bod pawb arall oedd wedi cefnogi'r cleient yn y gorffennol 'eisoes wedi mynd'.

Tynnodd sawl cyfwelai sylw at rywbeth roeddwn i wedi'i golli neu ei ddiystyru ar y dechrau, sef y ffaith – p'un ai a yw hyn yn cael ei weld fel maen prawf penodol ar gyfer y grŵp cleientiaid targed ai peidio - fod cleientiaid yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn tueddu i fod yn rhai oedd wedi cael sawl cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Trafododd un person gleient nad oedd wedi bod yn cysgu ar y stryd ers cyfnod hir o amser, ond a oedd wedi sgorio'n uchel ar y matrics. Mewn gwirionedd, roedd y matrics wedi'i addasu fel nad oedd yn torri allan bobl oedd heb dreulio cyfnodau estynedig ar y stryd, cyn belled â'u bod wedi sgorio'n uchel yn y meysydd eraill. Yn y gorffennol, nid oedd cleientiaid posibl y barnwyd nad oeddynt wedi llwyr ymwreiddio wedi cael eu derbyn i'r prosiect. Roedd addasu'r matrics, felly, yn ymdrech i gywiro hyn, gan amlygu'r ffaith bod y prosiect yn parhau i ddatblygu, a'r staff yn dysgu o'u profiadau. Roedd y cleient a gyfwelwyd wedi disgrifio hanes o gysgu ar y stryd a chyfnodau byr yn y carchar.

## Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Ni chofnodwyd unrhyw feysydd o gonsỳrn mewn perthynas â'r egwyddor hon.

## Argymhellion

Ni wnaed unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r egwyddor hon.

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR PEDWAR Uchel iawn

## Caiff cymorth hyblyg ei ddarparu cyhyd ag y bo angen amdano.

### Crynodeb o'r nodiadau

Darparwyd tystiolaeth o bob math er mwyn dangos ymlyniad i'r ail egwyddor, ac mae'r lefel tystiolaeth wedi cael sgôr o 'uchel iawn'. Hyblygrwydd y cymorth, a'r amrywiaeth o ffyrdd o'i ddarparu, oedd un o'r agweddau a bwysleisiwyd gliriaf yn y cyfweliadau a gynhaliais, ac roedd yr un peth yn wir am lawer o'r ddogfennaeth a ddarparwyd ar fy nghyfer.

Yn y cyfarfod Strategaeth Aml-Asiantaeth, mae yna gyfeiriadau at y ffaith bod gweithwyr ar alw bob nos, ac yn cwrdd â chleientiaid yn ddyddiol. Mae'r ddogfen Casglu Incwm Tai Cymunedol Sir Ddinbych yn cydnabod problemau fforddiadwyedd ymysg rhai cleientiaid. Mae'r Canllaw Dyrannu Eiddo Tai yn Gyntaf yn crybwyll 'cymorth dwys' a'r ffaith bod staff ar gael '24/7'. Mae'r Cyfarfod Rhithiol Dyrannu Eiddo yn cyfeirio'n aml at gymorth hyblyg, dwys, sy'n cael ei ddarparu ac ar gael 'mewn amser real'. Mae'r cynlluniau cymorth yn dangos yr amrywiaeth yn nodau'r cleientiaid, ac nid oes unrhyw gyfyngiadau amser ynghlwm â nhw.

Rhoddodd y rhai a gyfwelwyd nifer o enghreifftiau o gymorth hyblyg a pherson-ganolog. Byddai rhai o'r enghreifftiau yn yr adran lleihau niwed hefyd yn cyfrif yng nghyd-destun yr egwyddor hon. Yn ogystal, roedd yr holl staff yn cytuno eu bod yn cael cefnogaeth gan uwch-staff i weithio ar eu liwt eu hunain yn y maes hwn. Mae'r staff yn gweithredu ar system ar-alw, felly mae cymorth ar gael 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r tîm yn galw hyn yn 'gymorth mewn amser real' neu 'ymateb mewn amser real'. Cyfeiriwyd ar y system 'tag team'/'buddy' gan fod y llwyth gwaith yn gallu bod yn drwm iawn, felly mae angen i nifer o bobl fod yn ymwybodol o gyd-destun unrhyw gleient.

Nododd un cyfwelai fod cleientiaid gwahanol yn diffinio llwyddiant mewn gwahanol ffyrdd, a chânt eu cefnogi i gyrraedd y llwyddiant hwnnw. Esboniodd hefyd fod gweithwyr cymorth yn gwybod o'r cychwyn na fydd eu dyddiau'n dilyn strwythur pendant, ac na fydd pob diwrnod yr un fath. Câi aelodau o'r staff eu hannog a'u grymuso i weithio gyda'i gilydd ac i rannu problemau. Mae'r tîm hefyd wedi ymgysylltu gyda chleientiaid tra oeddynt yn yr ysbyty, gan weithio i drefnu llety pan fyddent yn dod allan. Nododd cyfwelai arall fod cleientiaid TyG yn gallu cymryd sbel o amser i ymgysylltu, a rhaid symud ar eu cyflymder nhw.

Trafodwyd enghreifftiau penodol o wahanol fathau o gymorth. Roedd un cleient, er enghraifft, mor hoff o anifeiliaid a byd natur fel bod gweithwyr cymorth yn dewis mynd â nhw i fwydo hwyaid gerllaw tra'n cynnal sgwrs gyda hwy.

Roedd y cleient a gyfwelwyd wedi trafod y cymorth a ddarparwyd iddynt, a'r modd roedd y tîm wedi gwneud popeth i ffitio o amgylch eu hanghenion hwy. Ni thrafodwyd unrhyw gyfyngiadau amser – yn wir, roedd y tîm yn awgrymu bod y cleient yn arafu wrth ddilyn ei nodau.

## Meysydd o gonsỳrn neu liniaru

Soniodd sawl un a gyfwelwyd am y tensiwn sy'n bodoli rhwng cynnig cymorth heb unrhyw gyfyngiadau amser na gorfodaeth, a'r ffaith fod cyllid yn ei hanfod yn cael ei gyfyngu i amserlenni penodol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw hyn yn effeithio ar staff ar lawr gwlad: roedd yn amlwg bod holl waith y staff wedi ei ymrwymo i'r egwyddor. Yn ddelfrydol, mae angen i gomisiynwyr ddod o hyd i ffordd o ddarparu ymrwymiadau yn y tymor hirach i ariannu prosiectau Tai yn Gyntaf – ac mae hyn yn wir ledled Cymru.

## Argymhellion

*Amserlen: Tymor hir*

6. Gweithio gyda chomisiynwyr i sicrhau bod TyG, y diffyg cyfyngiadau amser ar gyfer cymorth, a'r ffaith y bydd gan wahanol gleientiaid wahanol nodau, yn cael eu deall yn llawn.
7. Cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru ynghylch ariannu yn y tymor hirach ar gyfer prosiectau TyG, neu ofyn i Lywodraeth Cymru am sicrwydd ynghylch hirhoedledd y cyllid.

## Yr ymateb i'r argymhellion

Mae'r Rheolwr Tîm Tai yn Gyntaf wedi ymrwymo i ddatblygu polisi Tai yn Gyntaf sy'n esbonio'n glir sut mae Tai yn Gyntaf yn gweithio, a sut y dylai ei effeithiolrwydd gael ei asesu'n unig ar gynnal tenantiaeth. Bydd y polisi hwn yn cael ei rannu ym mis Mai.

Bydd cynrychiolwyr o Cymorth Cymru yn cwrdd â rheolwr y tîm i drafod sut i symud ymlaen â'r drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a/neu yr awdurdodau lleol ynghylch ariannu yn y tymor hirach. Gallai peth o'r gwaith hwn gael ei gynnwys fel rhan o strategaethau lobïo ehangach cyfredol Cymorth Cymru, ond os oes unrhyw feysydd penodol o waith y gellid eu gwneud ar y cyd â'r prosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych, caiff hyn ei archwilio'n drwyadl.

**Sgôr tystiolaeth argymhellion: Digonol**

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR PUMP

Uchel iawn

## Defnyddir dull o ymgysylltiad gweithredol.

### Crynodeb o’r nodiadau

Cafodd lefel y dystiolaeth hon sgôr o ‘uchel iawn’, gydag enghreifftiau o bob un o’r pum categori tystiolaeth. Mae’n amlwg bod aelodau o’r tîm Tai yn Gyntaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn gweithio’n galed iawn i adeiladu perthynas ac ymgysylltu â chleientiaid a chleientiaid posibl; mae aelodau o dimau eraill yn cydnabod hyn, ac yn bositif iawn yn eu sylwadau yn ei gylch.

Mae’r Canllaw Dyrannu Eiddo Tai yn Gyntaf yn crybwyll ‘ymgysylltiad dinasyddion’ a gweithio gyda phobl i’w helpu i dderbyn TyG. Mae Cyfarfod Bwrdd TyG yn crybwyll bod swyddogion cymorth TyG yn aml yn ymweld â mannau penodol yn y dref i adeiladu perthynas gyda thenantiaid posibl. Mae’r cofnodion yn hefyd yn sôn am ‘Hỳb Tai yn Gyntaf’ ar drefniant galw-i-mewn. Mae nodiadau’r Cyfarfod Dyrannu Rhithiol yn nodi bod y tîm TyG yn cwrdd â chleientiaid a darpar gleientiaid i adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas – rhywbeth a bwysleisiwyd gan sawl cyfwelai wrth siarad gyda mi.

Ymddengys fod y tîm yn gweithio mor galed i ymgysylltu â chleientiaid ar y stryd nes eu bod, yn ôl un cyfwelai, yn ‘edrych fel petaen nhw [y tîm] yn cael eu defnyddio’. Bydd y tîm yn cynnig sigarèts i gleientiaid posibl i’w hannog i gael sgwrs tra bod y cleient yn ysmygu. Hyd yn oed ar ôl cymryd ‘llawer o gam-drin geiriol’, bydd y tîm yn dweud yn gwrtais y byddant yn ôl y diwrnod wedyn, neu y byddan nhw mewn caffi cyfagos os yw’r person yn awyddus i siarad. Yna, pan mae’r person yn barod i siarad, mae’n amlwg bod llinell wedi’i thynnu dan y cam-drin a ddigwyddodd yn gynharach.

Tynnwyd sylw sawl tro at yr amser a gymerir i adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas. Pwysleisiodd un cyfwelai yr ethos ‘byddwn ni wastad yn ôl fory’. Soniwyd hefyd am y syniad y gallai’r tîm glywed gan wasanaeth arall, yng nghyd-destun rhyw gleient penodol, ‘rydan ni eisoes wedi rhoi cynnig ar hynna, a wnaiff o ddim gweithio’ – ac yn aml, mae’n debyg, maen nhw’n darganfod nad yw hynny’n wir. Dywedodd yr ymatebydd hwn hefyd, wrth fyw mewn tŷ, gallant ddewis cau’r drws ffrynt ar rywun nad ydyn nhw’n awyddus i ymgysylltu â hwy. Mae’r tîm yn parchu pobl ar y stryd os ydyn nhw’n awyddus i wneud yr un peth: bydd y tîm yn rhoi’r gorau i bwyso ar bobl lle bo angen, ond ar yr un pryd yn esbonio’n glir eu bod nhw ar gael os bydd pobl yn penderfynu eu bod yn awyddus i siarad.

Dywedodd person arall, nad yw’n aelod o’r tîm, fod staff y tîm yn ‘gweithio’n ddiflino, drwy’r dydd, bob dydd’. Roedd disgrifiad y cleient o’r tîm TyG yn ymweld ag ef yn y carchar yn dangos pa mor weithredol y maen nhw wrth ymgysylltu. Roedd un aelod o’r tîm yn amlygu’r ethos o weithio gyda phobl nad oeddynt eto wedi cael llety, a gwneud hynny fel petaen nhw eisoes mewn eiddo – hynny yw, nad yw’r tîm yn rhoi llai o gymorth, nac yn dangos llai o ymroddiad, hyd yn oed os nad yw’r person eto wedi cael llety.

Wrth i mi fynd o gwmpas gydag aelodau o’r tîm oedd yn gweithio gyda chleientiaid nad oeddynt eto wedi cael llety, gallwn weld y perthnasoedd positif roedden nhw’n eu datblygu mewn nifer o wahanol ffyrdd.

## Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Ni chofnodwyd unrhyw feysydd o gonsỳrn mewn perthynas â’r egwyddor hon.

## Argymhellion

Ni wnaed unrhyw argymhellion mewn perthynas â’r egwyddor hon.

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR CHWECH

Uchel iawn

## Mae gan unigolion ddewis a rheolaeth.

### Crynodeb o'r nodiadau

Mae lefel tystiolaeth yr egwyddor hon yn 'uchel iawn', gydag enghreifftiau o bob categori tystiolaeth. Yn nodiadau'r cyfarfod Strategaeth Aml-Asiantaeth, mae'r cleient a drafodir yn amlwg wedi rhestru llefydd lle mae'n dymuno byw. Ymddengys fod y dewis hwn yn mynd i gael ei ddilyn. Mae Canllaw Dyrannu Eiddo TyG yn sôn am adael i gleientiaid ymweld ag eiddo cyn ei dderbyn – rhywbeth sydd hefyd yn cael ei amlygu mewn cyfweliadau. Mae'r siart llif proses yn y ddogfen hefyd yn amlwg yn caniatáu i gleientiaid droi eiddo i lawr.

Defnyddiodd un cyfwelai oedd yn gweithio o fewn y tîm Tai yn Gyntaf yr ymadrodd hwn i ddisgrifio'u gwaith: 'gofal cofleidiol sy'n seiliedig ar ddewis'. Pwysleisiodd y person y rôl mae dewis yn ei chwarae wrth sicrhau bod pobl yn cael gwneud dewisiadau ystyrlon – rhai maen nhw wedi buddsoddi ynddynt. Gallai dewis olygu rhywbeth mor 'fychan' â phenderfynu a ydynt yn dymuno cael help i lanhau eu heiddo ai peidio.

Soniwyd yn aml am y syniad o bobl yn dewis eu dodrefn eu hunain. Buon ni'n trafod y syniad bod pobl yn fwy tebygol o ofalu am eitemau roedden nhw wedi eu dewis eu hunain, neu'n berchen arnynt. Mewn un cyfweliad, buom yn trafod cleient oedd yn dymuno cael addurno'i gartref mewn du, gydag oergell ddu ac ati. Gweithiodd y tîm i sicrhau bod hyn yn digwydd. Roedd y cleient y bûm i'n ei gyfweld wedi nodi'r glir ym mha drefn y byddai'r stafelloedd yn cael eu haddurno, a pharchodd y tîm ei ddewis ar y lefel hon o fanylder.

Mewn achos arall, cymerodd y tîm yr arweiniad wrth addurno cartref un cleient nad oedd wedi cymryd llawer o ddiddordeb yn y broses. Roedd wedi gwasanaethu yn y Llynges Fasnachol, ac oherwydd hynny roedd y tîm wedi gosod lluniau o longau ar y waliau – llongau y byddai'r cleient yn eu hadnabod ac yn eu cofio. Roedd y cleient wrth ei fodd. Mae hon yn un enghraifft o'r modd mae'r tîm yn ystyried y cleient yn ystod proses y gellid bod wedi ei chwblhau heb roi unrhyw feddwl i'r gwaith, gan nad oedd y cleient wedi nodi unrhyw beth penodol. (Byddai hyn yn cyfrif fel tystiolaeth ar gyfer egwyddor 8 hefyd.)

Soniwyd mewn rhai cyfweliadau am y gyllideb a ganiateid i gleientiaid ar gyfer dodrefnu, ac y gallent ddewis bod yn rhan weithredol o'r gwaith o addurno eu cartref, neu beidio â chymryd rhan o gwbl. Pwysleisiodd person arall y ffaith fod y cleient yn cael cyfle ar y cychwyn i ddweud ble yr hoffai fyw, yn hytrach na derbyn rhestr o dai i ddewis ohonyn nhw. Cytunai'r cleient fod ganddynt ddewis a rheolaeth o ran ble maen nhw'n byw, a sut mae'r eiddo'n cael ei addurno, ynghyd ag agweddau eraill o'r cymorth roeddent yn ei dderbyn.

### Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Wrth gyfeirio at brinder cyffredinol o lety yn yr ardal leol, tynnodd rhai a gyfwelwyd sylw at yr angen i reoli disgwyliadau yng nghyd-destun y dewis o ardal. Roedd yn rhaid i'r tîm fod yn agored gyda chleientiaid ynghylch y ffaith y gallent fod yn gorfod aros peth amser am eiddo mewn ardaloedd penodol. Yn ddelfrydol, byddai rhagor o dai ar gael ar gyfer Tai yn Gyntaf, fel sydd eisoes wedi'i nodi.

Er nad yw'n anodd cynnig rhyw lefel o ddewis a rheolaeth, nododd un person bod y prinder o gartrefi addas yn cyfyngu ar y dewis. Ymddengys ei bod bellach rywfaint yn haws cael eiddo, ond mae'n dal i fod yn broblem.

## Argymhellion

*Amserlen: Tymor byr i ganolig*

8. Ystyried creu 'lòg dewis' ar gyfer comisiynwyr, lle caiff dewisiadau cyntaf unigolion eu cofnodi; yna bydd unrhyw resymau pam na chaniatawyd y dewis hwnnw yn cael eu cofnodi ar gyfer unrhyw adolygiad posibl neu hapwiriad.

## Yr ymateb i'r argymhellion

Mewn ymateb i'r asesiad hwn, a'r Adroddiad Argymhellion, mae'r tîm wedi llunio Lòg Dewis i nodi'r dewisiadau a wnaed gan gleientiaid, a'r camau a gymerir ar y dewisiadau hynny. Bydd y ddogfen hon yn awr yn rhan o'r ymarfer safonol gyda phrosiectau. Mae'r dewisiadau o lety eisoes yn cael eu cofnodi fel rhan o'r trefniadau. Bydd defnyddio'r Lòg Dewis yn galluogi'r tîm i sicrhau eu bod yn gweithredu ar ddewisiadau eu tenantiaid hyd eithaf eu gallu, ac yn galluogi archwilwyr allanol i wirio'r broses hon yn ôl yr angen.

**Sgôr tystiolaeth argymhellion: Uchel**

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR SAITH

Uchel

**Defnyddir dull o leihau niwed yng nghyd-destun camddefnyddio sylweddau.**

## Crynodeb o'r nodiadau

Y sgôr ar gyfer y lefel tystiolaeth yw 'uchel'. Cafwyd tystiolaeth o'r egwyddor hon mewn tri o'r pum categori o dystiolaeth: dogfennau polisi mewnol, cyfweliadau ymarferwyr, a chyfweliadau allanol.

Roedd y math 'arferol' neu ddisgwyliedig o leihau niwed yn codi mewn cyfweliadau – er enghraifft, lle bo angen, darperir biniau 'sharps' ar gyfer pobl, ynghyd â chyfleusterau cyfnewid nodwyddau.

Fodd bynnag, trafodwyd hefyd ddulliau mwy anarferol o leihau niwed, e.e., gall y tîm drefnu tacsi yn y prynhawn i gasglu cleient sy'n yfed ar fainc yn y dre, a mynd â'r cleient yn ôl adref. Mae hyn yn golygu bod y cleient yn llai tebygol o gael ei arestio'n ddiweddarach yn y dydd – roedd hyn yn aml yn digwydd yn y gorffennol wrth iddynt barhau i yfed mewn lle cyhoeddus. Mae hyn yn gostwng y niwed i'r cleient ac i'r system cyfiawnder troseddol. Cadarnhawyd hyn gan gyfwelai arall, a soniodd fod gostyngiad yn y nifer o gleientiaid TyG sy'n cael eu harestio.

Soniodd cyfwelai arall am weithio gyda'r tîm camddefnyddio sylweddau lleol i roi cymorth i gleient. Soniodd sawl cyfwelai eu bod wedi awgrymu i'w cleientiaid y dylent yfed diodydd gwannach, neu yfed pum peint yn hytrach na chwech. Soniodd rhai am ostyngiadau bychan yn y defnydd o sylweddau neu alcohol, gydag un yn dweud pan fo person wedi cael lle i fyw, mae lleihau niwed yn tueddu i ddigwydd o ganlyniad i hynny, a thrwy hynny amlygir un o 'sgil-effeithiau' positif posibl Tai yn Gyntaf, y tu allan i ystadegau cynnal tenantiaeth.

## Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Derbyniwyd eisoes fod cytundebau tenantiaeth a lofnodir gan gleientiaid Tai yn Gyntaf yr un fath â'r rhai a lofnodir gan y math cyffredin o denant. Wedi dweud hynny, nid oes llawer o le ar gyfer lleihau niwed yn y cytundebau hyn. Dylid nodi bod y fframwaith deddfwriaethol yn y DU, y mae'n rhaid i drefniadau fel hyn lynu atynt, yn cyfyngu ar gwmpas lleihau niwed mewn rhai meysydd. Yn ogystal, mae yna le am beth lliniaru yn y ffaith fod rhai Cymdeithasau Tai wedi arwyddo Siarter Rheoli Tai yn Gyntaf, sy'n amlinellu'r angen am ddefnyddio dull o leihau niwed yn Tai yn Gyntaf.

## Argymhellion

*Amserlen: Tymor byr i ganolig*

9. Sicrhau bod comisiynwyr a phrosiectau lleol wedi gweithio gyda'r heddlu lleol i drefnu ffordd dderbyniol o symud ymlaen gyda'r maes hwn.

## Yr ymateb i'r argymhellion

Yn y gorffennol, mae swyddog o'r heddlu wedi mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio Tai yn Gyntaf. A chymryd y bydd natur y grŵp hwn yn newid, a'r bwrdd yn cael ei yrru'n fwy gan weithredoedd (gweler y drafodaeth ar egwyddor 10), mae'n bwysig bod y drefn o gynnwys yr heddlu lleol yn parhau: bydd y tîm yn gofyn am swyddog ar y bît i fynychu cyfarfodydd o'r Tasglu Gweithredol (dyma'r enw ar y Grŵp Llywio ar ôl iddo gael ei ail-lansio). Bydd aelod o'r tîm yn parhau i fynychu cyfarfodydd misol rhwydwaith yr heddlu, i adeiladu perthnasoedd a pharhau'r ddialog ynghlch cleientiaid penodol.

**Sgôr tystiolaeth argymhellion: Uchel**

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR WYTH **Uchel**

## Caiff y gwasanaeth ei gyflenwi mewn dull seicolegol-wybodus, trawma-wybodus, rhywedd-wybodus, sy'n sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchodedig.

### Crynodeb o'r nodiadau:

Y sgôr ar gyfer y lefel tystiolaeth yw 'uchel'. Mae yna dystiolaeth o bob categori heblaw am y cyfweliad gyda chleient; ni chaiff hyn ei ystyried yn fater o bryder, gan nad oedd y sgwrs yn cyfeirio'n benodol at PIE a thrawma. Nid yw diffyg o ran y dystiolaeth hon yn dystiolaeth o ddiffyg dull PIE o weithio. Dylid nodi fod yna gryn dipyn o or-gyffwrdd rhwng y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer yr egwyddor hon, hyblygrwydd y cymorth (egwyddor 4), a'r dull a seilir ar gryfderau (egwyddor 9).

Mae'r cytundebau tenantiaeth yn cynnwys cyfeiriad at gam-drin domestig. Yn yr un modd, mae'r polisi Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol (ASB) yn cyfeirio at roi cymorth i bobl fregus i gadw'u cartrefi ac osgoi digartrefedd. Mae hefyd yn crybwyll gweithio'n agos gyda'r asiantaethau perthnasol i roi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae cyfeiriadau hefyd yn y polisi ASB at bobl fregus a'r defnydd o gyffuriau, problemau oechyd meddwl, a theuluoedd yn chwalu/cam-drin. Sonnir hefyd am y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, felly mae yna beth ymwybyddiaeth o nodweddion gwarchodedig. Mae Polisi Cyffredinol Dyrannu Tai Sir Ddinbych yn crybwyll nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal, mae'r polisi dyrannu yn ei gwneud yn glir nad oes raid i bobl sy'n gwneud cais am dai fynd i'r swyddfa eu hunain, ond gallant wneud hynny dros y ffôn, neu o'r ysbyty ac ati. Mae hyn yn dangos peth hyblygrwydd ym mhrosesau'r awdurdod lleol, ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymryd i ystyriaeth y problemau corfforol a meddyliol a allai rwystro rhywun rhag mynd i'r swyddfeydd Dewisiadau Tai i gyflwyno cais am dŷ.

Mae'r ddogfen Casglu Incwm Tai Cymunedol Sir Ddinbych hefyd yn cyfeirio at nodweddion gwarchodedig. Mae'r polisi Diogelu Plant ac Oedolion yn cyfeirio at bobl fregus, a diogelu pobl rhag gwahanol broblemau a niwed; sonnir hefyd am nodweddion gwarchodedig. Mae nodiadau Cyfarfod Bwrdd TyG yn sôn am recriwtio mentor cyfoed o eiddo TyG i weithio gyda thenantiaid eraill. Er nad yw hyn wedi digwydd eto, yn ôl y cofnodion, mae'n syniad gwerth chweil – ac yn un y soniwyd amdano mewn sawl cyfweliad. Mae'n bosibl y byddai rhywun sydd wedi cael profiad o'r math o bethau y gallai tenatiaid Tai yn Gyntaf fod yn mynd i'r afael â hwy yn fwy tebygol o ystyried sefyllfa iechyd meddwl tenant arall, a rhoi cymorth priodol. Mae'r Cyfarfod Rhithiol Dyrannu Eiddo hefyd yn nodi teilwra cymorth i unigolion mewn modd sy'n berson-ganolog.

Bu llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn esbonio beth mae PIE a dulliau trawma-wybodus yn ei olygu iddyn nhw; e.e. os oedd rhywun fel petai'n 'dangos ei hun', doedd hynny ddim o angenrheidrwydd yn digwydd oherwydd eu bod yn ceisio bod yn 'anodd'. Tynnodd un person sylw at ddulliau anfeirniadol o weithio, gan bwysleisio rôl empathi. Gresynai un cyfwelai y ffaith fod 'PIE' a 'trawma-wybodus' bron wedi dod yn 'buzzwords'. Yn y diwedd, esboniodd y person hwn, mae 'PIE' a 'thrawma-wybodus' yn cyfeirio at fod yn anfeiriadol a thrin pobl fel y byddent hwy eu hunain yn hoffi cael eu trin, gyda'r ethos 'byddwn ni wastad yn ôl fory'. Dywedwyd wrthyf fod trin pobl â pharch ac urddas yn allweddol. Esboniodd un person fod PIE, yn ei hanfod, yn golygu peidio â rhoi label ar bobl.

Cyfeiriodd un cyfwelai at y ffaith fod pobl yn gallu dewis gweithiwr cymorth gwrywaidd neu fenywaidd. Yng nghyd-destun gwaith rhywedd-wybodus, mae tîm TyG yn yr un gyfarwyddiaeth â'r tîm fyddai'n rhoi cymorth mewn achos o gam-drin domestig.

Yn ddamcaniaethol, felly, dylai fod yn broses syml i gael y timau i ryngweithio a threfnu'r cymorth cywir pan fo angen.

Mewn enghraifft benodol o weithio yn ôl anghenion y cleient, soniodd un cyfwelai am gleient oedd wedi sôn nad oedd wedi derbyn cerdyn pen blwydd ers blynyddoedd lawer. Prynodd y tîm TyG un iddo, ac mae'r cleient wedi ei gadw am amser hir. Dylid nodi hefyd fod sawl cyfwelai wedi crybwyll PIE a thrawma heb gael eu hannog i wneud hynny, gan ddangos dealltwriaeth gref o'r cysyniadau hyn, a'u hymgysylltiad â hwy, ar draws y tîm cyfan.

Mae Cymorth Cymru wedi cynhyrchu dogfen sy'n esbonio prif agweddau PIE. Mae yna dystiolaeth ar gyfer pob elfen: mae'r cymorth mae'r cleientiaid yn ei dderbyn yn amlwg yn seiliedig ar eu fframwaith seicolegol. Defnyddir adborth a mewnbwn gan staff a chleientiaid fel ei gilydd mewn modd sy'n cynhyrchu tystiolaeth. Mae'r amgylchedd ffisegol yng nghartrefi'r tenantiaid yn ffocws clir pan fydd angen cefnogi tenant a gwneud iddo deimlo'n gyfforddus. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, er bod lle o hyd i ehangu'r hyn sy'n cael ei gynnig, fel yr esbonnir yn y rhan argymhellion ac ymateb yn yr adran hon. Hefyd, mae perthynas gref yn cael ei datblygu rhwng rhanddeiliaid yn y prosiectau hyn.

## Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Er bod y Cytundebau Tenantiaeth a lofnodir gan denantiaid yr un fath â'r rhai a lofnodir gan unrhyw denant arall, nid yw iaith y cytundebau hyn yn drawma-wybodus nac yn berson-ganolog, ond yn hytrach yn eithaf cymhleth ac yn rhoi'r argraff o orfodaeth. Nid yw peth o'r iaith yn y polisi ASB yn drawma-wybodus chwaith – e.e. defnyddir ymadroddion fel 'ymddygiad annerbyniol'. Er bod hyn yn cael ei liniaru rywfaint lle bo cymdeithasau tai yng Nghonwy a Sir Ddinbych wedi llofnodi'r Siarter Rheoli Tai yn Gyntaf, mae'r mater hwn yn werth ei nodi, er ei fod i ryw raddau'n mynd y tu hwnt i Tai yn Gyntaf.

Er bod pob aelod o'r staff yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi i weithredu ar eu liwt eu hunain a rhoi cymorth yn y ffordd orau bosibl, mae un agwedd o ddull PIE ar goll: nid yw staff yn derbyn cefnogaeth ffurfiol, gan sefydliad neu unigolyn allanol, i ddelio ag unrhyw drawma gohiriedig y gallent fod wedi cael profiad ohono wrth weithio gyda chleientiaid TyG. Deuthum yn hynod ymwybodol o'r ffaith fod aelodau o'r tîm yn aml yn clywed hanesion dychrynllyd a allai achosi trawma eilaidd neu ddirprwyol ynddynt hwy eu hunain.

Yn ddelfrydol, fel y soniodd sawl cyfwelai, byddai apwyntiadau cinigol gyda seicolegydd yn cael eu cynnig i staff yn y sefyllfa hon. Yn yr un modd, er bod y tîm yn amlwg yn agos-atoch a'r aelodau'n cefnogi ei gilydd, byddai'n dda gweld ymrwymiad cliriach i ymarfer adlewyrchol. Cyfaddefodd un aelod o'r staff, er bod peth hyfforddiant yn y maes hwn yn cael ei ddarparu – yn cynnwys y sesiynau PATH – mae hwn yn faes lle gallai'r prosiect wneud yn well.

Yn ogystal, byddai datblygu trafodaeth fwy ffurfiol o sut y gall y tîm fabwysiadu dull o weithio sy'n rhywedd-wybodus fod yn gam positif ymlaen.

## Argymhellion

*Amserlen: Tymor byr i ganolig*

10. Dylai fod mwy o dystiolaeth o ddarparu cymorth rhywedd-wybodus, er fy mod yn derbyn efallai nad yw wedi bod yn berthnasol gyda'r cleientiaid hyd yn hyn.
11. Dylid cynnig mwy o hyfforddiant ar agweddau o PIE i aelodau o'r staff.

## Yr ymateb i'r argymhellion

Mae Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf wedi ymrwymo i ddiweddaru'r Cynlluniau Cymorth a ddefnyddir i ddatblygu'r dull cymorth i gleientiaid, gan sicrhau bod yna ymrwymiad cliriach i ddarpariaeth rhywedd-wybodus o'r cychwyn cyntaf. Caiff hyn ei wneud erbyn mis Ebrill, a byddaf yn dilyn i fyny ar y gwaith hwn.

Yn ogystal, bydd uwch-aelodau o staff y tîm yn datblygu modiwl sefydlu, yn cynnwys rhoi sylw i PIE, a fydd yn cael ei ddilyn gan bob aelod o'r staff sy'n rhan o ddarparu Tai yn Gyntaf mewn unrhyw gapasiti. Bydd y rheolwr hefyd yn gweithio gydag aelodau eraill o'r uwch-staff i nodi hyfforddiant cwnsela addas y bydd pob aelod o'r staff yn ei gymryd. Byddaf yn cadw mewn cysylltiad â'r gwaith hwn wrth iddo ddatblygu, gan weithio gyda'r prosiect i barhau i ddatblygu dull seicolegol-wybodus o weithio sy'n unol â phum elfen PIE.

**Lefel tystiolaeth argymhellion: Digonol**

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR NAW Uchel iawn

## Caiff y gwasanaeth ei seilio ar gryfderau pobl, eu nodau a'u dyheadau, ac oherwydd hynny mae'n ymrwymo'n benodol i lwyth gwaith bychan

### Crynodeb o'r nodiadau

Lefel y dystiolaeth yng nghyd-destun y nawfed egwyddor yw 'uchel iawn', a chaiff y dystiolaeth ei chynrychioli ym mhob categori.

Mae'r ddogfen Casglu Incwm Tai Cymunedol Sir Ddinbych yn cyfeirio at ddull 'cwsmer-ganolog' o weithio. Mae'r polisi Diogelu Plant ac Oedolion yn nodi mai nod y cyngor yw bod pobl fregus yn gallu 'byw mor annibynnol ag y bo modd'. Fel y trafodwyd eisoes, mae Canllaw Dyrannu Eiddo Tai yn Gyntaf yn crybwyll mynd â chleientiaid i weld tai cyn penderfynu a fyddant yn dewis eu derbyn ai peidio – mae hwn yn waith person-ganolog gan ei fod yn sicrhau bod y tai yn addas ar gyfer y cleientiaid. Mae nodiadau Cyfarfod Rhithiol Dyrannu Eiddo yn ei gwneud yn glir y dylai cymorth gael ei deilwrio i anghenion yr unigolion mewn dull sy'n berson-ganolog.

Soniodd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd am y dulliau gwahanol o roi cymorth i wahanol bobl. Mae rhai o'r enghreifftiau yn yr adran 'dewis a rheoli' hefyd yn amlwg yn berthnasol i'r egwyddor hon – addurno cartref cleient gyda lluniau o longau, er enghraifft. Yn yr un modd, mae'r ffaith fod gan gleientiaid wahanol nodau, a gwahanol syniadau ynghylch 'llwyddiant' yn allweddol yma: pwysleisiodd un cyfwelai y ffaith y bydd cleientiaid yn cael ei cefnogi i gyrraedd eu llwyddiannau. Yn ogystal, rhoddwyd enghraifft i mi o gleient oedd yn mwynhau chwaraeon, gweithgareddau corfforol, a chynnal eu hiechyd. Sicrhaodd y tîm eu bod yn sôn wrth y cleient am gaffi fegan newydd oedd wedi agor gerllaw. Soniodd un cyfwelai am gleient oedd yn mwynhau mynd am dro ar y traeth, felly dyma lle roedd y sesiynau cymorth yn cael eu cynnal.

Yn ystod fy ymweliad â gogledd Cymru, roedd y sgyrsiau rhwng cleient a'i weithiwr cymorth yn amlwg yn ffocysu ar gryfderau a galluoedd – y nod o fod yn hyfforddwr ffitrwydd, er enghraifft, yn ogystal â'r nifer o gyrsiau hyfforddi roedd y cleient wedi eu dilyn yn y carchar. Roedd y sgwrs yn realistig, ond ar yr un pryd yn ffocysu ar nodau yn hytrach nag ar bethau allai ddal person yn ôl.

### Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Ni nodwyd unrhyw feysydd o gonsỳrn mewn perthynas â'r egwyddor hon.

### Argymhellion

Nid oedd unrhyw argymhellion i'w gwneud mewn perthynas â'r egwyddor hon.

# LEFEL TYSTIOLAETH EGWYDDOR DEG

Uchel

**Caiff yr ystod ehangaf posibl o wasanaethau eu cynnwys o'r dechrau (iechyd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, yr heddlu), fel bod unigolion yn gallu cael mynediad atynt os ydynt yn dymuno neu ag angen amdanynt.**

## Crynodeb o'r nodiadau:

Sgoriwyd lefel y dystiolaeth ar gyfer yr egwyddor hon yn 'uchel', gydag enghreifftiau ar gael o bob categori tystiolaeth.

Mae yna dystiolaeth sylweddol sy'n dangos bod ystod o sefydliadau ac unigolion yn rhan o brosiectau Tai yn Gyntaf. Mae'r grŵp llywio yn cynnwys cyfranogwyr o ystod eang o wasanaethau, yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, pobl fregus, a'r heddlu, a chaiff cynlluniau cymorth aml-asiantaeth eu trafod yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r Polisi Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol (ASB) yn cynnwys cyfeiriad at weithio gydag asiantaethau eraill i gefnogi cleientiaid sy'n dioddef yn sgil y polisi. Sonnir hefyd am 'gynadleddau achos aml-asiantaeth'. Yn ogystal, mae'r polisi ASB yn trafod gweithio gydag asiantaethau allanol i ddiogelu dioddefwyr cam-drin domestig. Mae nodiadau Grŵp Llywio TyG (y Bwrdd) yn crybwyll cydweithiwr yn y Ganolfan Gwaith sy'n gweithredu dull 'llwybr carlam' o weithio gyda chleientiaid TyG. Mae'r un cofnodion yn dangos bod y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, Canolfannau Gwaith lleol, y gwasanaeth prawf, pobl fregus, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a rhagor.

Rhestrwyd y gwahanol sefydliadau hyn hefyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd. Soniwyd am ragor o ddulliau newydd o ryngweithio rhwng gwasanaethau – er enghraifft, mae'r tîm wedi gweithio i gael tocynnau i'r gampfa ar gyfer cleientiaid. Tynnodd un cyfwelai sylw at y rhan a chwaraeir yn y prosiect Tai yn Gyntaf gan y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, y gwasanaeth prawf a'r heddlu, a'r swyddog pobl fregus. Amlygodd un arall berthynas waith dda gyda'r heddlu, yn enwedig yn sir Ddinbych. Cyfeiriodd un cyfwelai at rai asiantaethau eraill sy'n cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd: y cyswllt alcohol, Kaleidoscope, DIP, Y Wallich, y lloches nos leol, a gwasanaethau llety argyfwng eraill.

Pan siaradais ag un o gleientiaid y prosiect, roedd ei stori'n amlygu'r rhyngweithio a fodolai rhwng y tîm TyG a'r gwasanaeth carchar tra bod y cleient yn y ddalfa, yn ogystal â'r perthnasoedd dilynol gyda'r gwasanaethau prawf ac alcohol. Roedd yn amlwg y bydd aelodau o'r tîm Tai yn Gyntaf yn sicrhau eu bod yn datblygu perthynas waith dda gydag unrhyw sefydliadau neu unigolion eraill a allai fod mewn sefyllfa i roi cymorth i gleient, ac yn gwneud popeth posibl i'w cynnwys nhw.

## Meysydd o gonsỳrn a lliniaru

Soniodd sawl cyfwelai am y diffyg cymharol o brynu-i-mewn gan gynrychiolwyr iechyd meddwl, er y gwnaed ymdrechion i geisio eu cael i ymgysylltu. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a drafododd y mater hwn wedi esbonio eu bod yn deall faint o bwysau allai fod ar y GIG, ac y gallai fod yn anodd iddynt fod ynghlwm â chynllun arall. Mae llawer o hyn y tu hwnt i reolaeth y tîm Tai yn Gyntaf.

Fodd bynnag, lle mae darparu TyG yn y cwestiwn, mae'r diffyg ymgysylltiad ar ran y cynrychiolwyr iechyd meddwl yn parhau'n broblem. Tynnodd un cyfwelai sylw ar y perygl y byddai TyG yn dod yn 'gymorth tenantiaeth+' os na fyddai unrhyw brynu-i-mewn ystyrlon gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac yn enwedig iechyd meddwl. Mae angen adeiladu dull o brynu-i-mewn ar lefel strategol o'r gwasanaethau iechyd meddwl neu 'mwy o'r top i lawr', meddai'r cyfwelai, er bod y 'synau cywir' yn dod o'r 'cyfeiriad yna'.

Soniodd un cyfwelai am Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) fel mater penodol sy'n effeithio ar rai tenantiaid TyG. Mewn achosion fel hyn, mae angen cymorth iechyd meddwl go iawn. Dywedwyd wrthyf am un cleient yr amheuir o fod yn dioddef o PTSD sy'n cael pyliau difrifol, ond oherwydd nad oes unrhyw gynrychiolydd iechyd meddwl wedi bod yn dyst i'r rhain, nid yw'r cleient wedi cael diagnosis (ac oherwydd hynny, heb dderbyn triniaeth).

Yng Nghonwy, yn ôl un cyfwelai, nid yw'r heddlu a sefydliadau eraill wedi ymgysylltu cystal ag y maent yn sir Ddinbych. Soniodd un person bod y grŵp llywio (a elwir hefyd yn 'Fwrdd) fel ag y mae'n gweithredu ar hyn o bryd 'ddim yn gweithio', ond bod yna newidiadau ar y gweill i ddod ym mis Ebrill; bydd y grŵp yn ei ffurf newydd yn cymryd rôl fwy 'ymarferol' yn hytrach na dim ond derbyn diweddariadau. Nododd yr ymatebydd yma hefyd fod cyllid posibl wedi cael ei nodi ar gyfer secondio staff o wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i mewn i'r tîm TyG.

## Argymhellion

*Amserlen: Tymor canolig i hir*

12. Darganfod ffyrdd o ddatblygu prynu-in-mewn yng nghyd-destun iechyd meddwl, o bosib drwy secondiad.
13. Parhau gyda newidiadau i'r bwrdd, gan ei wneud yn llai o grŵp sy'n derbyn diweddariadau, a rhoi rôl mwy ymarferol iddo.

## Yr ymateb i'r argymhellion

Mae'r cynllun i secondio staff iechyd meddwl yn dal ar y gweill. Hefyd, mae rheolwr y tîm wedi awgrymu lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid i dalu am arolygaeth glinigol ar gyfer aelodau o'r tîm, fel y gallant ymdopi â thrawma eilaidd neu ddirprwyol; byddai hyn hefyd yn cryfhau'r ymlyniad i'r dull PIE o weithio. Mae Rheolwr y Tîm wedi ymrwymo i'm diweddaru ar y cynnydd a wneir yn y maes hwn.

Bydd cyfarfod cyntaf y Tasglu Gweithredol, sydd newydd gael ei ffurfio yn lle'r Grŵp Llywio, yn cael ei gynnal ym mis Ebrill. Nod y grŵp newydd yw bod yn fwy ymarferol o ran gwneud penderfyniadau a llywio cyfeiriad y cymorth, o'i gymharu â grŵp sydd ond yn derbyn diweddariadau. Byddaf yn dilyn hyn i fyny gyda Rheolwr y Tîm yn gynnar ym mis Mai i weld sut aeth y cyfarfod cyntaf; byddaf hefyd yn parhau i fonitro'r cynnydd hwn er mwyn sicrhau ymrwymiad strategol gan y bwrdd iechyd lleol, er mwyn hwyluso mynediad brys at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cleientiaid y prosiect.

**Sgôr tystiolaeth argymhellion: Digonol**

# 5. ARGYMHELLIAD ACHREDU A PHENDERFYNIAD

Rwy'n argymell bod y prosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn cael eu hachredu fel prosiectau Tai yn Gyntaf Cymru.

Er bod yna rai meysydd bychan o gonsỳrn yn achos rhai o'r egwyddorion, o ystyried sgoriau rhagorol y lefelau tystiolaeth (pump 'uchel' a phump 'uchel iawn'), yn ogystal â rhai o'r ffactorau lliniarol, dylid ystyried y rhain fel 'argymhellion ymarfer gorau'. Hynny yw, tra byddai gweithredu ar yr argymhellion yn enghraifft o ymarfer gorau Tai yn Gyntaf, dylai'r prosiectau barhau i gael eu hachredu yn y cam hwn. Caiff hyn ei ategu gan yr ystod o fathau gwahanol o dystiolaeth ar draws yr egwyddorion. Yn y cyfweliadau, roedd yn amlwg i mi fod y staff y tu mewn a'r tu allan i'r tîm Tai yn Gyntaf yn deall y dull o weithio. Roedd yn drawiadol gweld staff sy'n gwneud gwaith statudol gyda'r digartref yn cymharu'r dulliau hynny gyda Tai yn Gyntaf, ac yn deall pam y mae'n gweithio cystal os caiff ei ddarparu yn y dull cywir.

Fel y dengys y dystiolaeth uchod, mae'r tîm eisoes wedi ymrwymo i weithredu ar lawer o'r argymhellion, ac mewn rhai achosion – e.e. y ffaith fod iechyd meddwl yn cael ei dangynrychioli o fewn y prosiect – roeddynt eisoes yn ymwybodol o'r problemau ac yn dyfeisio dulliau o fynd i'r afael â hwy. Rwyf wedi datblygu cynllun gweithredu gyda Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf, a byddaf yn dilyn i fyny  ar y gwahanol dasgau maent wedi ymrwymo iddynt dros y misoedd i ddod.

Mae rhai enghreifftiau yma o faterion sy'n effeithio ar y sector ledled Cymru – prinder tai addas, er enghraifft, yn ogystal â diffyg dealltwriaeth o Tai yn Gyntaf fel dull o weithio mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylen nhw gael eu hanwybyddu, ac mae prosiectau Conwy a Sir Ddinbych eisoes wedi bod yn meddwl sut i fynd i'r afael â phroblemau o'r fath.  O ystyried ei bwysigrwydd i'r egwyddorion craidd, mae'n gwbl allweddol fod iechyd meddwl yn cael ei gynnwys i raddau pellach nad ydyw hyd yma (mae'n werth nodi, eto, bod ymdrechion eisoes wedi eu gwneud yn y maes hwn, ac yn parhau i gael eu gwneud). Dylai darparu cymorth clinigol i staff, yn unol â'r dull PIE, arwain at dîm sy'n fwy iach ac yn hapusach, er bod eu hymdrech werth chweil wrth gyflawni eu gwaith wedi bod yn gwbl amlwg o'r cychwyn cyntaf.

# 6. SYLWADAU'R PANEL AC YCHWANEGIADAU

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Panel, cyfarfu tri aelod o'r Panel â Chydlynydd Polisi ac Ymarfer Tai yn Gyntaf a Rheolwr Polisi a Materion Allanol Cymorth Cymru. Er mwyn dod i benderfyniad terfynol ar yr achrediad, mae'r Cylch Gorchwyl yn datgan bod yn rhaid i fwyafrif aelodau'r panel gytuno ar y penderfyniad.

Treuliodd y Panel y rhan fwyaf o'r diwrnod gwaith yn trafod yr adroddiad hwn ac enghreifftiau penodol o ymarfer ar gyfer pob egwyddor. Ymunodd Rheolwr y Tîm Tai yn Gyntaf y prosiect â'r Panel i ateb cwestiynau penodol, a thaflu mwy o oleuni ar agweddau o waith roedd y Panel yn awyddus i holi yn eu cylch.

Nododd y Panel nifer o faterion a fydd yn rhan o drafodaeth ehangach ynghylch Tai yn Gyntaf yng Nghymru, yn cael eu hwyluso gan y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf. Amlinellir y rhain yma, ynghyd â rhai o'r cwestiynau a godwyd ar gyfer Rheolwr y Tîm ond sydd o bosib yn fwy cysylltiedig ag ymarfer lleol penodol.

## MATERION LLEOL A GODWYD YN YSTOD CYFARFOD Y PANEL

### Lleihau niwed

Roedd aelodau o'r Panel wedi gofyn i Reolwr Tîm Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych a oedd unrhyw achosion wedi bod o denantiaid yn defnyddio cyffuriau yn un o'r tai, a bod y mater wedi ei godi gyda'r darparwr tai perthnasol.

Esboniodd Rheolwr y Tîm nad yw'r mater wedi codi hyd yma; fodd bynnag, mae darparwyr tai yn cael eu briffio'n llawn ynghylch dull Tai yn Gyntaf o weithredu, yr hyn y gallai ei olygu i gleientiaid a'r hyn maen nhw'n dewis ei wneud yn eu cartrefi, ac mae perthynas gref wedi datblygu rhwng y tîm Tai yn Gyntaf a'r darparwyr tai. Yn ychwanegol, mae llawer o ddarparwyr tai yn yr ardal wedi llofnodi Siarter Rheoli Tai yn Gyntaf, sy'n trafod mater lleihau niwed. O ganlyniad, nid yw Rheolwr y Tîm yn rhagweld y bydd hyn yn achosi problemau petai'n digwydd.

### Dychwelyd i'r carchar

Gofynnodd aelodau o'r Panel i'r Rheolwr Tîm yng Nghonwy a Sir Ddinbych daflu mwy o oleuni ar broblem cleientiaid yn gorfod dychwelyd i'r carchar, a p'un ai a oedd y troseddau roedden nhw wedi'u cyflawni yn perthyn i'r cyfnod cyn neu ar ôl cael llety Tai yn Gyntaf. Soniodd Rheolwr y Tîm am lond llaw o gleientiaid yn dychwelyd i'r carchar, ac ym mhob achos roedd y tîm Tai yn Gyntaf wedi parhau i gadw mewn cysylltiad â'r cleientiaid hyn, gan weithio i sicrhau y byddai llety'n aros amdanynt wrth gael eu rhyddhau o'r carchar. Nid oedd unrhyw gleientiaid wedi cael eu barnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod roeddynt yn denantiaid Tai yn Gyntaf.

# MATERION EHANGACH I'W CYMRYD AT Y RHWYDWAITH

## Dewis a rheolaeth

Cafwyd trafodaeth ynghylch Egwyddor 5, ac ystyr Dewis a Rheolaeth. Er bod aelodau o'r Panel yn derbyn yr enghreifftiau penodol o weithio i gyflawni dewisiadau'r cleientiaid yn y prosiect sy'n gweithio ar draws Conwy a Sir Ddinbych, roeddynt yn awyddus i gadarnhau pa systemau oedd ar waith i alluogi pobl i wneud dewisiadau mewn achos o ddiffyg capasiti neu ddealltwriaeth o wahanol opsiynau.

Tra bod y pwynt hwn yn berthnasol yn benodol i ymarfer yn y prosiect dan sylw, mae'n bwydo i mewn i ystyriaeth ehangach o sut mae'r staff yn cyfathrebu â chleientiaid ynghylch eu dewisiadau.

Mae'r dull a ddilynir yn y prosiect yn gwbl glir. Ar ôl treulio'r cyfnod sylweddol o amser sy'n angenrheidiol i adeiladu perthynas gref, ymddiriedus a hirhoedlog gyda chleientiaid a darpar gleientiaid, byddai gweithwyr cymorth yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu ynghylch pob dewis allai fod ar gael i'r cleient, gan gadw'r cleient mewn cof bob amser. Ni fydd gweithwyr cymorth yn tynnu sylw at ddewisiadau penodol, ond yn hytrach yn trafod dewisiadau gyda chleient tra'n cymryd cyd-destun unigol y cleient i ystyriaeth. Derbyniwyd hyn gan y Panel fel enghraifft o ymarfer da.

## Cymorth dyheadol, person-ganolog, wedi'i seilio ar gryfderau

Cafwyd trafodaeth ynghylch ystyr a goblygiadau Egwyddor 9, sy'n cyfeirio at gymorth sy'n ddyheadol, person-ganolog ac wedi'i seilio ar gryfderau. Mae'r rhestr wirio sy'n gysylltiedig â'r egwyddor hon yn nodi'r sgoriau isod:

**Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar gryfderau, nodau a dyheadau pobl, ac oherwydd hynny mae ganddo ymrwymiad penodol i gynnal llwyth gwaith bychan.**

- ✖ 0 - Mae yna ddull pendant o estyn cymorth a ddefnyddir ar gyfer pob unigolyn, waeth beth fo eu hanghenion penodol.
- ✖ 1 - Mae yna ymdrech i greu cymorth unigol, ond caiff gwasanaethau eu comisiynu ar sail y nifer o oriau, sy'n cyfyngu ar yr amser y gellir ei dreulio gyda phobl.
- ⚠ 2 - Mae yna wasanaeth unigol wedi'i bersonoli, ond caiff ei weithredu mewn dull sy'n rhoi cymorth i unigolyn yn hytrach na gydag unigolyn.
- ✔ 3 - Mae yna ymrwymiad i gyd-gynhyrchu ac i gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, lle bo gan yr unigolyn gyfle i roi barn ar y gefnogaeth, ac awgrymu ym mha ddulliau y gallai gael ei gefnogi; mae comisiynu ar lefel leol yn hyblyg, gyda gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn monitro ac yn adrodd yn ôl i ganiatáu hyn.

Mae'n werth nodi bod egwyddorion Tai yn Gyntaf wedi cael eu llunio beth amser yn ôl, ac mae'r cyd-destun o gwmpas y dull o weithio yng Nghymru wedi datblygu ers hynny. Tra bod yr egwyddor ei hun yn dal i sefyll, cytunwyd fod y pwynt a sgoriodd uchaf yn y rhestr uchod – oedd yn parhau i gael ei ddefnyddio i bwrpas yr achrediad hwn – yn ffocysu ar elfen gomisiynu Tai yn Gyntaf dros y cymorth dydd-i-ddydd a ddarperir i gleientiaid. O ganlyniad, mae angen i Rwydwaith Tai yn Gyntaf ystyried yn drwyadl (a diffinio) natur y gwir gymorth sy'n seiliedig ar nodau ac yn ffocysu ar gryfderau a dyheadau person, yn hytrach nag ar ddiffygion posibl, ac addasu'r rhestr wirio uchod i adlewyrchu hynny.

Roedd aelodau'r Panel yn cytuno bod y prosiect Tai yn Gyntaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn cynnig cymorth sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn ystyried dyheadau pobl – canmolwyd yn arbennig yr enghraifft a roddwyd o un cleient yn dymuno bod yn hyfforddwr ffitrwydd, a'r modd y cefnogwyd y person gan y staff wrth iddyn nhw ei helpu i gyrraedd y nod.

## Polisïau gosod lleol, canllawiau addasrwydd ar gyfer llety dros dro, a'u perthynas â Tai yn Gyntaf

Daeth yn amlwg yn ystod y drafodaeth gyda Rheolwr Tîm Tai yn Gyntaf bod rhai polisïau gosod tai lleol a weithredir gan RSLau yn gallu golygu bod rhai cleientiaid Tai yn Gyntaf yn cael eu heithrio o'u heiddo hwy oherwydd ymddygiad tenantiaid yn y gorffennol. Oherwydd hynny, mae'r Panel yn argymell y dylai'r Rhwydwaith ymchwilio i rôl polisïau o'r fath ledled Cymru.

Yn yr un modd, mae'r tîm yn cydnabod nad yw'r defnydd o lety dros dro yn ddelfrydol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o lety gwely a brecwast a mathau eraill o lety dros dro yn parhau i fod yn seiliedig ar ddewis y cleient. Ymddengys fod y rhestr wirio llety dros dro a luniwyd gan y tîm mewn ymateb i Argymhelliad 8 yn cynnwys llawer o'r un meini prawf ag a restrir mewn deddfwriaeth: Canllawiau Addasrwydd,yn enwedig, sy'n rheoli rhai safonau gofynnol yng nghyd-destun llety dros dro. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn gosod terfynau amser clir ar gyfer llety dros dro, a dylai darparwyr Tai yn Gyntaf fod yn ymwybodol o'r rhain.

Bwydodd y drafodaeth hon i sgwrs ehangach ynghylch statws cyfreithiol cleientiaid Tai yn Gyntaf, a'u perthynas â dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bydd angen i'r Rhwydwaith gael eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa ddyletswyddau cyfreithiol sy'n berthnasol i gleientiaid a darpar gleientiaid Tai yn Gyntaf yn ystod eu camau i lety addas. Ar hyn o bryd mae llawer – os nad y cyfan – o gleientiaid Tai yn Gyntaf yn cael eu lletya y tu allan i Ddeddf Tai (Cymru).

## Cyfrifoldeb dros weithredu ar yr argymhellion

Tynnodd aelodau o'r Panel sylw at y ffaith nad yw rhai o'r argymhellion a restrir yn yr adroddiad hwn – a gymerwyd o'r Adroddiad Argymhellion Interim a gynhyrchwyd yn gynharach yn y broses a'u rhannu gyda'r Tîm Tai yn Gyntaf - mewn rhai achosion yn gyfrifoldeb i'r tîm hwnnw, neu weithiau nid yn gyfrifoldeb llwyr i'r tîm.

Trafodwyd hyn yn benodol mewn cysylltiad ag Argymhelliad 4 a fyddai, yn ddamcaniaethol, yn cynnwys comisiynwyr. Wrth fynd ymlaen bydd yr Adroddiadau Argymhellion, yn ogystal â'r Cynlluniau Gweithredu sy'n gysylltiedig â hwy, yn gwneud hyn yn gliriach.

## Y cyflenwad tai

Trafododd y Panel fater cyflenwad tai, a'r prinder cyffredinol o eiddo sydd ar gael i ddarparwyr Tai yn Gyntaf (yn ogystal ag i bobl fregus yn fwy cyffredinol). Un o'r rhesymau pam bod y tîm yn archwilio llwybrau yn y Sector Rhentu Preifat yw y byddai'n arwain at ragor o eiddo ar gael yn yr ardal. Ar hyn o bryd, mae angen i aelodau o'r tîm gyfathrebu'n gwbl onest gyda chleientiaid ynghylch y cyfnod aros posibl am y llety maen nhw'n ei ddymuno yn yr ardaloedd o'u dewis hwy. A chymryd bod dyrannu tai yn seiliedig ar ddewis y cleient, mae angen rheoli disgwyliadau'n ofalus iawn, ac yn dibynnu ar y dewis hwnnw gallai hyn arwain at ddefnyddio llety dros dro (fel y trafodwyd uchod) neu gleient yn parhau i fyw ar y stryd wrth aros am dŷ. Mae'n debygol fod hyn yn fater sy'n effeithio ar brosiectau ledled y wlad, ac mae angen gwneud mwy o waith lobïo i bwysleisio pwysigrwydd cael mwy o eiddo ar gael ar gyfer cynlluniau fel Tai yn Gyntaf.

# YMARFER DA AR GYFER DARPARWYR ERAILL

## Ymarfer da ar gyfer gwasanaethau statudol

Roedd llawer o'r unigolion a gyfwelwyd yn rhan o'r prosiect Tai yn Gyntaf yn sgil eu haelodaeth o'r hyn sydd, hyd yma, wedi cael ei alw'n Grŵp Llywio (gweler yr adran sy'n trafod Egwyddor 10 am ragor o wybodaeth ynghylch y modd y bydd y grŵp hwn yn datblygu wrth symud ymlaen). Roedd llawer o'r bobl hyn, wrth gael eu cyfweld, wedi cymharu elfennau o'r dull Tai yn Gyntaf â'r dull o weithio i fynd i'r afael â digartrefedd sy'n gynwysedig yng Nghyfraith Cymru; ceir disgrifiad mwy manwl o'r ffenomen hon yn yr adran ar dystiolaeth ar gyfer Egwyddor 1.

Cytunai aelodau o'r Panel y gallai llawer o'r dulliau gweithredu sydd wedi profi'n effeithiol yng nghyd-destun Tai yn Gyntaf gael eu defnyddio hefyd gan awdurdodau lleol yn y cymorth a ddarperir ganddynt i bobl mewn perygl o fod yn ddigartref, neu'n mynd drwy'r profiad hwnnw ar hyn o bryd. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys: cymryd amser i adeiladu perthynas dda gyda chleientiaid; derbyn y ffaith y gallai rhywun fod yn anfodlon ymgysylltu neu siarad ar ryw adeg arbennig; a ffocysu ar gryfderau yn hytrach na gwendidau posibl. Tynnodd un cyfwelai sylw at eu canfyddiad o ddiwylliant cynhenid ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes tai. P'un ai a yw hyn yn wir ai peidio, mae yna gyfle i ddefnyddio ymarfer arloesol ac effeithiol a weithredir gan Tai yn Gyntaf i wneud gwahaniaeth i bobl sy'n defnyddio amrywiaeth o wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau tai.

## Ymarfer da yng nghyd-destun y ddogfennaeth

Holodd aelodau o'r Panel ynghylch rhai o'r dogfennau penodol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwn ac yn ystod y cyfarfod. Ymddengys fod rhai o'r dogfennau hyn, eu datblygiad a'u defnydd, yn enghreifftiau o arfer da y gellid eu defnyddio neu eu hailbwrpasu gan wasanaethau cymorth eraill. Yn benodol, tynnwyd sylw at y Canllaw Dyrannu Eiddo Tai yn Gyntaf, ynghyd â'r siart llif gysylltiedig sy'n dangos proses o ganiatáu i gleientiaid droi eiddo i lawr (gweler yr adran ar Egwyddor 5). Yn yr un modd, roedd gan aelodau'r Panel ddiddordeb yn y matricsau a ddefnyddir i asesu cleientiaid posibl.

# 7. DYFARNIAD

**Ar ôl cwrdd â'r Panel, roedd yn bleser gan Cymorth Cymru gyhoeddi achrediad llawn i Brosiect Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych.**

HOUSING FIRST WALES ACCREDITATION
ACHREDIAD TAI YN GYNTAF CYMRU

## Dyfarnwyd gan Cymorth Cymru:

- **Alex Osmond (**Cydlynydd Polisi Tai ac Ymarfer Tai yn Gyntaf)
- **Katie Dalton (**Cyfarwyddwr)

## Gyda diolch i'n Panel Achredu:

- **Claire Frew** (Rhwydwaith Digartrefedd yr Alban)
- **Rebecca Jackson** (Shelter Cymru, bellach Platfform)
- **Joy Williams** (Rhwydweithiau Tai Awdurdodau Lleol)

# 8. GEIRFA A THERMAU

Defnyddir gwahanol dermau drwy'r holl ddogfennau sy'n gysylltedig â'r Achrediad Tai yn Gyntaf Cymru. I sicrhau bod gwahanol randdeiliaid yn deall yn union beth rydyn ni'n ei olygu wrth ddefnyddio rhai termau, rydym wedi llunio'r rhestr fer hon. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y termau a ddefnyddir i'r Cydlynydd Polisi Tai ac Ymarfer Tai yn Gyntaf.

- **Ymgysylltiad gweithredol/allgymorth pendant** - mae'r termau hyn yn cyfeirio at ddull o ymgysylltu a chyfathrebu gyda chleientiaid neu gleientiaid posibl, p'un ai a ydynt yn ddigartref ar hyn o bryd neu mewn perygl o fod felly, neu efallai'n addas yn benodol ar gyfer Tai yn Gyntaf. Yn ei hanfod, mae gweithio mewn modd gweithredol neu bendant yn golygu y dylai gweithwr cymorth gadw mewn cof y ffaith y gallai'r person maent yn ceisio'i gyrraedd fod â nifer o resymau pam nad yw am ymgysylltu. Gallai rhai rhesymau fod yn rhai byr-dymor a thros dro, tra bod eraill fod yn fwy cynhenid. Tra'n parchu hawl unrhyw un i beidio ag ymgysylltu â rhywun arall, dylai gweithwyr cymorth fod yn barod i roi cynnig ar ddulliau gwahanol o gysylltu â'u cleientaid – ac ar yr un pryd yn gweithio mewn modd sy'n drawma-wybodus a pherson-ganolog.

  Er enghraifft, gallai gweithiwr cymorth gael profiad o gam-drin geiriol yn ei erbyn, a dylai esbonio'n glir ei fod yn barod i dynnu llinell o dan y profiad os yw'r cleient ar unrhyw bwynt yn penderfynu ei fod am siarad (gan ar yr un pryd ei gwneud yn glir nad yw cam-drin o'r fath yn dderbyniol). Gallai gweithwyr cymorth, gan ddeall y gallai person beidio â bod yn awyddus i siarad y foment honno, ddweud wrth gleient y bydden nhw'n eistedd mewn caffi cyfagos petai'r cleient yn newid ei feddwl. Bydd angen i weithwyr cymorth fod yn amyneddgar a llawn dealltwriaeth. Gallai gweithiwr cymorth awgrymu cwrdd am sgwrs mewn lleoliad y teimlent fyddai'n helpu'r cleient i deimlo'n gyfforddus – parc lleol, er enghraifft.

  Gan y bydd llawer o'r cleientiaid sy'n addas ar gyfer Tai yn Gyntaf wedi cael profiad o gael eu gadael i lawr gan y system dro ar ôl tro, mae ymgysylltiad gweithredol a phendant yn golygu esbonio'n glir na fydd yr un peth yn digwydd y tro hwn, ac y bydd y gweithwr cymorth bob amser yn barod am sgwrs; sut bynnag mae cleient yn teimlo, a pha drawma bynnag maen nhw wedi ei ddioddef, bydd 'y system' fel sy'n cael ei chynrychioli gan weithiwr cymorth neu weithiwr allgymorth, yno iddyn nhw pan maen nhw'n barod. Mae adeiladu perthynas yn cymryd llawer o amser, wrth gwrs, a dylai gweithwyr cymorth fod yn barod i roi'r amser hwn.

  Mae ymgysylltu mewn ffordd bendant yn golygu sicrhau bod y gwahanol sefydliadau, unigolion ac asiantaethau yn ymrwymedig i'r un dull, er mwyn iddo ddatblygu'n ddull aml-ddisgyblaethol o weithio. Wedi dweud hynny, dylid cofio y gallai rhai cleientiaid fod â pherthynas anodd gyda rhai sefydliadau ac, oherwydd hynny, dylai'r cymorth a gynigir fod y tu allan i unrhyw sefydliad neu asiantaeth benodol.

  Dylai gweithwyr cymorth a phobl eraill sy'n cynnig cefnogaeth fod yn fodlon cwrdd â chleientaid mewn gwahanol lefydd – yn swyddfa'r heddlu ar ôl arestiad, er enghraifft, neu ym meddygfa'r meddyg teulu. Yn yr un modd, dylid bod yn fodlon cwrdd â chleientiaid ar wahanol adegau o'r dydd – er enghraifft, gallai pobl newid shifftiau er mwyn gallu gweld cleientiaid yn y nos, neu'n gynnar yn y bore.

  Elfen allweddol o ymgysylltiad gweithredol yw bod cleientiaid yn cael cynnig sefyllfa sy'n well na'r un maen nhw ynddi ar hyn o bryd – e.e. efallai y byddai'n well ganddynt gael llety gwely a brecwast yn hytrach na lle mewn hostel. Mewn gwirionedd, dylai gweithwyr cymorth gael pecyn o wahanol ddulliau, mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith y gallai gwahanol gleientiaid fod ag anghenion gwahanol a'u bod yn ymgysylltu mewn ffordd wahanol.

- **Dewis a rheolaeth** - mae'r cysyniadau hyn yn sylfaenol i'r gwaith o ddarparu Tai yn Gyntaf, ond gallant olygu ystod o wahanol bethau. Yn ymarferol, mae dewis a rheolaeth yn cyfeirio at gael cymorth a llety dan arweiniad y cleient. Er enghraifft, gall dewis gyfeirio at y cleient yn mynegi dewis o ardal lle hoffai fyw – ond ar yr un pryd gall hefyd gyfeirio at y cleient yn cymryd yr arweiniad yn y dewis o sut mae'r cartref yn cael ei addurno.

  Mae rheolaeth yn golygu rhoi rôl weithredol i'r cleientiaid yn y prosesau penderfynu hyn. Mae'r ffaith nad yw Tai yn Gyntaf yn gosod unrhyw amodau ar denantiaid – y tu hwnt i'r amodau sylfaenol y byddai unrhyw gytundeb tenantiaeth yn eu gosod – yn golygu bod dewisiadau sylfaenol megis p'un ai i ymgysylltu â math penodol o gymorth ai peidio yn ddewis i'r cleient.

  Dylid nodi bod cleientiaid, fel lleiafswm, fel arfer yn gorfod ymrwymo o leiaf i gael sgwrs reolaidd gyda gweithiwr cymorth. Mae gweithwyr cymorth Tai yn Gyntaf yn aml yn gorfod adeiladu perthynas gyda chleientiaid fel bod modd iddynt drafod y dewisiadau sydd ar gael i gleientiaid mewn ffordd deg, agored a heb farnu. Fel y dywedodd un gweithiwr Tai yn Gyntaf: 'Sut allwn ni wybod beth mae ar gleient ei eisiau os na fyddwn ni'n siarad efo nhw?'

  Dylai gweithwyr cymorth gadw mewn cof y bydd gan wahanol gleientiaid wahanol anghenion, a'u hannog i wneud newidiadau positif yn eu bywydau tra'n parhau i barchu eu dewisiadau. Mae hyn yn gofyn am dosturi, parch a dealltwriaeth. Ni ddylai gweithwyr cymorth gynnig help nad oes ar gleientiaid ei angen, a dylent fod yn onest ynghylch y dewisiadau a allai fod ar gael ar unrhyw adeg arbennig mewn amser.
- **Sefydliad allanol** - gwasanaeth, sefydliad neu asiantaeth nad yw golygu darparwr cymorth yn gweithio i gyflenwi Tai yn Gyntaf, na chwaith y landlord sy'n gosod yr eiddo, ond sy'n rhan o brosiect Tai yn Gyntaf fel rhanddeiliad allweddol. Gweler isod am ddiffiniad o 'rhanddeiliad'.
- **Ymlyniad** - y graddau y mae prosiect Tai yn Gyntaf yn cyd-fynd ag egwyddorion y dull o weithio; yn yr achos hwn, yr egwyddorion a luniwyd gan Rwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru.
- **Dulliau rhywedd-wybodus o weithio** - gwasanaeth sydd, wrth gynllunio a darparu cymorth, yn ystyried sut y gallai rhywedd canfyddedig person effeithio ar ei sefyllfa a'i anghenion o ran cymorth. Mae'n fwy tebygol, er enghraifft, fod menyw sy'n cysgu ar y stryd wedi cael profiad o gam-drin domestig; gallai hyn alw am 'galedu targed' ar gyfer eu llety, neu effeithio ar eu dewis o lety. Yn ogystal, dylai gwasanaethau hefyd allu ymateb yn sensitif i geisiadau am weithwyr cymorth gwrywaidd neu fenywaidd lle bo'n briodol.
- **Lleihau niwed** - polisïau a dulliau sydd â'r nod o leihau canlyniadau negyddol y defnydd o gyffuriau, tra'n pwysleisio ansawdd bywyd unigolyn dros roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau. Mae dull lleihau niwed yn derbyn y defnydd o gyffuriau fel ffenomen gymhleth; mae'n ffocysu ar gadw pobl yn ddiogel, ac ar hawliau ac anghenion pobl sy'n defnyddio cyffuriau. Am ddiffiniad llawnach, ewch i'r dudalen yn y Gynghrair Lleihau Niwed (Harm Reduction Coalition).
- **Prosiect Achrededig Tai yn Gyntaf** - gwasanaeth sy'n glynu at yr egwyddorion a luniwyd gan y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf, ac sydd wedi mynd drwy'r broses achredu cyn ennill achrediad.
- **Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru** - y grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr ym maes tai, digartrefedd a meysydd cysylltiedig eraill sy'n cwrdd i oruchwylio'r gwaith o weithredu Tai yn Gyntaf ledled Cymru, a sut y gellir ei wneud mewn ffordd effeithiol.

- **Achrediad Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru** - yn fyr, 'Achrediad'; mae'n cadarnhau bod prosiect yn darparu Tai yn Gyntaf yn unol â'r egwyddorion a luniwyd gan Rwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru. Er nad yw sefydliadau nad ydynt yn derbyn achrediad yn darparu Tai yn Gyntaf, mae'n gwbl bosibl eu bod yn darparu gwasanaeth effeithiol a chwbl angenrheidiol.
- **Grwpiau targed cleient/cleientiaid Tai yn Gyntaf** - Caiff yr ymadrodd hwn ei ddefnyddio drwy gydol y broses asesu a'r dogfennau cysylltiedig. Mae Tai yn Gyntaf yn gweithio'n fwyaf effeithiol gyda phobl sy'n tueddu i gael problemau gyda defnyddio sylweddau, a'u hiechyd meddwl. Mewn sawl achos, ond nid bob amser, byddant wedi cael profiad o gysgu ar y stryd, neu ddigartrefedd o ryw fath. Mae'n bosibl y byddant wedi ymgysylltu i wahanol raddau ag amryw o wasanaethau a sefydliadau.
- **Rheoli tai** - casgliad o weithgareddau sy'n digwydd fel rhan o'r broses o osod eiddo ar rhent; mae'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gasglu rhent, cynnal a chadw tai, delio ag achosion o Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol, a datrys anghydfod gyda chymdogion. Mae tasgau rheoli tai fel arfer yn cael eu cyflawni gan landlord, p'un a yw'n breifat neu gymdeithasol.
- **Landlord** - y sefydliad neu'r unigolyn sy'n rhentu llety i gleient Tai yn Gyntaf.
- **Darpar Brosiect Tai yn Gyntaf** - prosiect sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd ar gyfer yr achrediad Tai yn Gyntaf.
- **Dulliau/amgylcheddau seicolegol-wybodus** - Dulliau ac amgylcheddau cymorth sy'n cymryd cyd-destun seicolegol person i ystyriaeth, ac yn gweithio'n unol â'r pum egwyddor a restrir yn y ddogfen hon, ynghyd ag ymarfer adlewyrchol.
- **Swyddogaeth Rheoli Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL)** - cangen o RSL yn gweithredu fel landlord yn unol â'r diffiniad yn yr eirfa hon. Yn aml, bydd hyn yn golygu gweithgareddau fel casglu rhent, delio â phryderon neu gwynion ynghylch neu gan denantiaid, arolygu gwaith trwsio a chynnal a chadw, a dyletswyddau eraill tebyg.
- **Gwahanu tai a chymorth** - Er mwyn glynu mor agos â phosib at egwyddorion Tai yn Gyntaf, ni ddylid defnyddio unrhyw ddylanwad di-alw-amdano ar y modd y mae cymorth yn cael ei ddarparu i gleientiaid. Rhaid derbyn nad yw darparu llety yn amodol ar ymgysylltu â chymorth; mae angen esbonio i'r rhai sy'n cael mynediad at Tai yn Gyntaf bod y darparwr cymorth yno i ffocysu'n llwyr ar faterion cymorth, ac na fydd hyn yn effeithio ar eu sefyllfa o ran llety. Dylid cadw gweithgareddau rheoli ar wahân gymaint ag y bo modd – e.e., ni fydd gweithwyr cymorth yn darparu na gorfodi gweithgareddau o'r fath (casglu rhent, er enghraifft, neu orfodaeth ASB). Mae'n bosibl y gallent, fodd bynnag, ddewis trafod materion o'r fath gyda thenantiaid, gan weithredu fel eiriolwyr ar ran y cleientiaid.
- **Darparwr gwasanaeth** - y sefydliad sy'n darparu'r cymorth i ddarpar brosiect Tai yn Gyntaf, yn hytrach nag yn gosod y llety ei hun. Mae'n bosibl y bydd y term yn cael ei dalfyru i 'darparwr' neu 'sefydliad darparu' mewn gwahanol ddogfennau.
- **Rhanddeiliad** - unrhyw asiantaeth, sefydliad, grŵp neu unigolyn sy'n rhan o brosiect Tai yn Gyntaf ac sydd felly'n debygol o fod yn rhan o'r broses achredu. Byddai'r rhain yn cynnwys, ond nid o bosib yn gyfyngedig i, y tîm comisiynu, staff y darparwr gwasanaeth, cynrychiolwyr y gwasanaeth iechyd, cynrychiolwyr timau iechyd meddwl lleol, cynrychiolwyr y maes cyfiawnder troseddol yn lleol, cynrychiolwyr timau camddefnyddio sylweddau lleol, a'r tenatiaid eu hunain, ynghyd â chleientiaid a allai fod yn ymgysylltu â sefydliad ond sydd heb eto gael eu cartrefu mewn eiddo Tai yn Gyntaf.
- **Dulliau trawma-wybodus o weithio** - modelau sy'n cydnabod y trawma mae pobl wedi'i wynebu yn eu bywydau, ac yn strwythuro systemau o gwmpas adnabod y trawma hwnnw ac ymateb iddo. Daw'r diffiniad hwn o AVA.

Mae'r rhestr termau hon yn ddogfen fyw – os ydych o'r farn y dylid cynnwys termau eraill, mae croeso i chi gysylltu'n uniongyrchol â ni.

HOUSING FIRST WALES ACCREDITATION

ACHREDIAD TAI YN GYNTAF CYMRU